



Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales

---

# Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory

Dysgu o Aseidiadau Llesiant 2017

# Cynnwys

Tudalen	Section
03	Rhagair
04	Cyflwyniad a chyd-destun
05	Canfyddiadau allweddol ac argymhellion
	<b>Rhan 1</b>
08	<b>Llesiant yng Nghymru: yr hyn a wyddom ac na wyddom</b>
11	1.1 Pwysigrwydd cychwyn da mewn bywyd
13	1.2 Rôl manau agored a lleoedd yn llesiant pobl
16	1.3 Atal afechyd ac ymddygiadau niweidiol i iechyd
19	1.4 Iechyd meddwl a llesiant
22	1.5 Sgiliau a chymwysterau – a ydynt yn addas ar gyfer y dyfodol?
25	1.6 Sut mae lleoedd yn gwasanaethu poblogaethau – seilwaith ac amgylchedd
28	1.7 Rôl ein cartrefi yn ein llesiant
31	1.8 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni
33	1.9 Pobl mewn gwaith gweddus yn gwella ffyniant cyffredinol
36	1.10 Sut mae pobl yn ymgysylltu mewn cymunedau a'r hyn a feddyliant
39	1.11 Pa mor ddiogel ydyw pobl a pha mor ddiogel y maent yn teimlo
42	1.12 Ein poblogaeth sy'n newid, a'r angen i ni heneiddio'n dda
45	1.13 Effeithiau byd-eang yr hyn a wneir gennym
	<b>Rhan 2</b>
47	<b>Asesiadau Llesiant cyntaf – gwersi ar gyfer cynllunio llesiant</b>
48	2.1 Datblygiad asesiadau (dysgu ar gyfer cynllunio llesiant)
53	2.2 Llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus
56	2.3 Fframio llesiant
60	2.4 Persbectifau'r gymuned
63	2.5 Dehongli data
66	2.6 Ystyried yr hirdymor a chedlaethau'r dyfodol
68	<b>Atodiad 1</b>

# Rhagair

Tra gall fod rhai wedi gweld asesiadau Llesiant fel rhan gyntaf proses gydymffurfio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rwyf i wedi eu gweld fel dangosydd cyntaf parodrwydd BGCau i herio busnes-fel-arfer a mabwysiadu'r dulliau newydd o weithio sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w gymeradwyo gyda'u hymagwedd positif wrth gwblhau'r asesiadau. Tra'u bod yn gam i'r cyfeiriad cywir, maent hefyd yn amlygu natur wirioneddol yr heriau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus wrth iddynt ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r dystiolaeth a gynhwysir ynddynt, a sut y caiff ei dehongli yn rhan sylfaenol o wella llesiant ein pobl a'n cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Rwyf wedi nodi rhai meysydd allweddol lle mae angen i aelodau BGCau a'r rhai hynny sy'n darparu cymorth yn lleol a chenedlaethol, yn cynnwys fy swyddfa, ffocysu arnynt er mwyn helpu cyrff cyhoeddus a BGCau i fanteisio i'r eithaf ar y Ddeddf, nid fel rhyw ymarfer cydymffurfio, ticio blychau, ond fel fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, fel eu bod yn addas ar gyfer cwrdd ag anghenion presennol ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r meysydd allweddol sydd angen eu herio'n cynnwys:

- Tueddiad i ddychwelyd at ddisgrifio llesiant mewn dulliau traddodiadol yn hytrach na chysylltu data lleol â'r nodau llesiant fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth
- Mynd i'r afael â'r diffyg amlwg mewn gallu a hyder wrth edrych ar yr hirdymor
- Diffyg ystyriaeth ystyrion o'r rhyng-gysylltiadau rhwng materion, a'r hyn a olygir gan y data mewn gwahanol gyd-destunau a chymunedau

Mae fy myfyrdodau ar yr asesiadau a'r sgyrsiau a gefais i a fy nhîm â phob un o'r BGCau yn awgrymu bod rhai o'r heriau'n adlewyrchu'r angen am well adnoddau, mwy o amser, mwy o gymorth ymarferol a chymorth ym maes polisi ar gyfer cyflawni'r holl newid sydd ei angen. Fodd bynnag, maent hefyd yn adlewyrchu amharodrwydd i newid, amharodrwydd i gamu allan o seilos a symud i ffwrdd oddi wrth y ffocws golwg byr a'r tueddiad i lynu wrth yr un hen ffordd o wneud pethau.

Bwriad yr adroddiad hwn yw amlygu'r hyn a ddywed yr asesiadau am lesiant (a'r hyn na ddywedant), a beth mae'r hyn a ddysgwyd o'r dulliau yr ymgymeryd â'r asesiadau yn ei olygu i gynllunio llesiant. Rwyf wedi cydweithio gydag ystod o bartneriaid a chyrff, a enwir drwy gydol yr adroddiad, yn cynnwys partneriaeth â Netherwood Sustainable Futures, Prifysgol Caerdydd a Mark Lang Consulting sydd wedi darparu dadansoddiad eang am y modd y mae BGCau wedi ymgymryd â'r asesiadau, ac mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar eu gwaith.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion, rhai yn herio BGCau gan awgrymu eu bod, efallai, wedi troi nôl at hen dulliau traddodiadol o wneud pethau, rhai argymhellion am y modd y mae angen i'r asesiadau esblygu a'r mwyafrif yn ffocysu ar yr hyn sydd angen ei newid i alluogi cynllunio llesiant a fydd yn creu'r newid sylweddol sydd arnom ei angen ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Byddaf yn cadw llygad barcud ar y modd y mae BGCau a chyrff cyhoeddus yn ymateb i'r argymhellion hyn, ac yn eu cysylltu â'r meysydd blaenoriaeth y bydd fy swyddfa'n ffocysu arnynt.

**Sophie Howe**  
Comisiynydd Cenedlaethau'r  
Dyfodol Cymru

# Cyflwyniad a chyd-destun

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ("y Ddeddf") yn nodi bod yn rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) gyhoeddi Asesiad Lleol o Lesiant ("Asesiad") i amlinellu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn ardal BGC. Cafodd yr asesiadau hyn eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ystod gaeaf 2016, pan ddaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymgynghorai statudol rhestredig.

Yn ogystal ag ymgysylltu'n anffurfiol â BGCau, datblygodd y Swyddfa bartneriaeth â Netherwood Sustainable Futures, Prifysgol Caerdydd a Mark Lang Consulting i ddarparu dadansoddiad arbenigol a gwerthusiad o'r 19 asesiad. Drwy hyn fe'm galluogwyd i ddarparu adborth personol i bob BGC, o fewn amserlen ei gyfnod ymgynghori a gyhoeddais ar y wefan [www.cenedlaethaurdyfodol.cymru](http://www.cenedlaethaurdyfodol.cymru). Ffocyswyd yr adroddiadau adborth hyn ar y meysydd allweddol lle'r oedd yr angen mwyaf am newid, er mwyn sicrhau bod cynllunio llesiant yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd a ddarperir gan y Ddeddf i rannu adnoddau, mabwysiadu ymagweddau newydd tuag at hen broblemau ac yn y pen draw wneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rwyf yn awyddus i sicrhau bod fy swyddfa'n ymgorffori'r pum dull o weithio a nodir yn y ddeddfwriaeth. Hyd yn hyn mae wedi adlewyrchu'r ymgysylltiad â BGCau ac yn defnyddio'r myfyrdod hwn i ffurfio'r ymagweddau tuag at ddarparu cyngor ar sut i symud ymlaen. Rwy'n cynnig yr adroddiad hwn fel cyfraniad pwysig i'r dysgu ar y cyd sydd ag angen i ni i gyd fod yn rhan hanfodol ohono, wrth i ni ymdrechu i wneud y gorau o'r Ddeddf, i sicrhau Cymru sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

Dyma'r canfyddiadau allweddol o'n gwaith gyda BGCau hyd yn hyn, yn seiliedig yn bennaf ar ein gwaith partneriaeth gyda Netherwood Sustainable Futures, Prifysgol Caerdydd a Mark Lang Consulting ond sydd hefyd yn manteisio ar fewnwelediad a gwybodaeth ehangach oedd ar gael i'r swyddfa Mae fy 17 argymhelliad wedi eu bwriadu i helpu aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, timau a'r gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol i ffocysu ar y pethau allweddol sydd angen eu newid ac ar adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu gyda'n gilydd hyd yn hyn.

## Sut mae BGCau wedi eu strwythuro ac yn ymgysylltu

### Canfyddiadau Allweddol

Ar adeg cyhoeddi eu hasesiadau, roedd y BGCau wedi bod yn gweithredu am oddeutu blwyddyn, felly mae'r amser wedi dod i ystyried eu cynnydd. Mae'n glir bod angen ystyried a yw'r modd y mae'r BGCau yn cael eu cadeirio a'u rhedeg yn galluogi dyheadau'r ddeddfwriaeth i gael eu gwireddu.

Mae'n bwysig bod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGCau yn medru dwyn yr ystod orau o fewnwelediad, her adeiladol a data i'r BGCau.

Nid yw'r BGCau eto'n gwneud y defnydd gorau o ddata ansoddol, seiliedig ar brofiad yn eu hasesiadau a gallent wneud hyn yn fwy effeithiol drwy fabwysiadu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu'r 'wybodaeth dydd-i-ddydd' a gesglir gan wasanaethau ar lawr gwlad, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu rhedeg gan y trydydd sector.

Mae'n glir bod BGCau wedi gwneud ymdrech fawr iawn i ymgysylltu â'r cyhoedd i chwilio am eu barn. Mae hyn i'w groesawu ond mae angen rhagor o waith i alluogi gwell dealltwriaeth o brofiadau bywyd pobl.

### Argymhellion

1. Dylai BGCau ystyried a yw'r **modd y maent yn cael eu cadeirio a'u cefnogi yn cynorthwyo i'r eithaf ethos y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn arbennig o ran hwyluso cydweithio, integreiddio ac ymgyfrannu. Dylent sicrhau bod y trefniadau'n hwyluso'r dasg o herio busnes-fel-arfer ac yn galluogi ymagweddau a phersbectifau newydd i ddatblygu.

2. Dylai BGCau **adolygu eu haelodaeth wahoddedig** i sicrhau bod cynrychiolwyr yn trosglwyddo gwybodaeth yn ôl i'w sectorau'n effeithiol, i ddwyn data, mewnwelediad a phrofiad i'r BGCau.

3. Dylid ymgymryd â mwy o waith i ddarparu **dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau bywyd** pobl drwy gasglu a defnyddio llawer mwy o'r wybodaeth sydd gan sefydliadau sy'n bartneriaid am lesiant pobl, gan fanteisio ar yr 'wybodaeth dydd-i-ddydd' a gesglir ar lawr gwlad mewn cymunedau gan ystod o wasanaethau.

4. Dylai BGCau ystyried sut y gallant **adeiladu ar y gwaith y maent wedi ymgyfrannu ynddo hyd yn hyn**, a chydweithio'n well gyda'i gilydd ar waith ymgyfrannu, yn cynnwys drwy ddefnyddio cyfryngau sy'n taro tant gyda phobl (yn cynnwys cyfryngau digidol).

## Sut ddylai asesiadau llesiant esblygu

### Canfyddiadau Allweddol

Ymddengys bod datblygu asesiadau'n cael ei weld gan rai BGCau fel rhywbeth sy'n digwydd unwaith bob pum mlynedd, yn hytrach nag fel cyfle i sicrhau bod eu dulliau o weithio, seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth, yn rhan hanfodol o'r modd y maent yn datblygu amcanion ac yn cydweithio.

Mae llawer o FGCau eto heb ddefnyddio'r data yn eu hasesiadau i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol: roedd y negeseuon ymhlyg yn y data'n gofyn am archwiliad pellach er mwyn deall yn well achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol.

Cyflwynodd llawer o asesiadau ddarlun 'anintegredig' o lesiant, gan edrych ar faterion a heriau polisi o fewn seilios cul, traddodiadol gan gollu cyfleoedd i greu cysylltiadau rhwng materion cydgysylltiedig a thrwy hynny ddeall beth mae'r cysylltiadau hyn yn eu olygu i lesiant.

### Argymhellion

5. Rhaid i bob partner sicrhau bod **yr asesiadau'n cael eu defnyddio i helpu dulliau gweithredu i ddatblygu**, er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o lesiant a'u helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.
6. Cyn i gynlluniau llesiant gael eu pennu, dylid **'twrio'n ddyfnach'** i'r data i ddeall yn well effeithiau ac achosion materion a thueddiadau allweddol, mewn perthynas â llesiant cymunedol a llesiant unigolion.
7. Mae angen mabwysiadu **ymagwedd fwy integredig tuag at ddehongli data** ar draws llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol; cyn i gynlluniau llesiant gael eu cynhyrchu, dylai BGCau ail-ymweld â'r data yn eu hasesiad i ddeall sut mae gwahanol faterion yn cydgysylltu a beth a olyga hyn i lesiant mewn lleoliadau arbennig.

## Dysgu allweddol ar gyfer cynllunio llesiant

### Canfyddiadau Allweddol

Mae'r capasiti a'r gallu i ddefnyddio tystiolaeth, yn arbennig yn nhermau creu polisi, yn gyfyngedig ar draws Cymru ac mae angen cynyddu eu gwerth a'u hadnoddau.

Methodd y mwyafrif o'r asesiadau ystyried mewn gwirionedd dueddiadau hirdymor y dyfodol na heriau polisi aml-genedliadol. Mae yna ddymuniaid clir i wneud mwy ond hefyd rwystrau allweddol yn nhermau'r capasiti, yr arbenigedd a'r hyder i feddwl a chynllunio am y dyfodol.

### Argymhellion

8. Dylai holl gyrff cyhoeddus archwilio dulliau o fynd i'r afael â'r bylchau mewn **capasiti a gallu i ddadansoddi data a chreu polisi seiliedig ar dystiolaeth**, gan gydnabod y bydd methu gwneud hyn yn rhwystr allweddol i weithrediad gwirioneddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
9. Gan weithio gyda'r BGCau, dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol archwilio'r dulliau gorau o adeiladu **capasiti, arbenigedd a hyder i ddeall rhagolygon, tueddiadau'r dyfodol ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol** yn cynnwys ystyriaeth o senarios a thueddiadau sy'n llai sicr.

Mae'r asesiadau'n peintio darlun diogel ac annadleuol o lesiant ar lefel lleol, heb gwestiynu a yw ymagweddau presennol tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol, neu archwilio pwysau allweddol a thensiynau yn y ddarpariaeth.

Mewn llawer o asesiadau mae BGCau wedi strwythuro pynciau yn ôl barn gul 'draddodiadol' am lesiant a restrir mewn seilos economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, ac mewn rhai achosion caiff diffiniadau cyfreithiol y nodau llesiant eu haralleirio'n fwriadol i osgoi talu sylw i'r ystod o bynciau a gynhwysir ynddynt.

Mae BGCau yn cyfyngu cwmpas dadleuon a thrafodaethau ar lesiant drwy gyflwyno'r nodau llesiant mewn dull lefel uchel, gyffredinol a phrin yw'r cyfeiriadau yn yr asesiadau at ddyletswydd gyfreithiol sefydliadau cyhoeddus i facsimeiddio'u cyfraniad i'r nodau.

Mae yna lun cymysg o ddata ar 'lefel cymunedol' mewn asesiadau, gyda llawer yn ffocysu ar faterion a thueddiadau allweddol ar lefel awdurdod lleol heb archwilio'n llwyr yr hyn y mae'r rhain yn ei olygu i wahanol gymunedau a beth allai'r gwahaniaethau hyn ei olygu i wasanaethau'r dyfodol.

Dealltwriaeth a dadansoddiad cyfyngedig a ddangosodd yr asesiadau o rôl lleoedd o fewn cyd-destun rhanbarthol a phrin oedd yr arsylwadau ar lesiant mewn perthynas â heriau polisi rhanbarthol.

Tra'r oedd asesiadau'n gyffredinol yn defnyddio tystiolaeth ansoddol wedi ei gasglu drwy ymgysylltu, mae yna le iddynt wneud mwy o ddefnydd o ddata ansoddol, seiliedig ar le o'r trydydd sector a chyrrff a rhwydweithiau eraill.

Mae angen meddwl mwy am y modd y mae cyrrff cyhoeddus megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, ac Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn medru rhannu gwybodaeth ac adnoddau i ychwanegu gwerth at gynllunio llesiant.

Yn gyffredinol prin yw cysylltiadau'r asesiadau â strategaethau a chynlluniau eraill sy'n hollbwysig ar gyfer gwell llesiant yn y dyfodol, yn cynnwys cynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu datblygu fel canlyniad i ddeddfwriaeth yn cynnwys y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Ddeddf Llesiant a Deddf yr Amgylchedd.

10. Er bod y dystiolaeth yn yr asesiadau'n dangos ystod o dueddiadau brawychus, **mae BGCau yn ymgysylltu'n unig â thiroedd diogel ac annadleuol**. Mae angen i FGCau roi tystiolaeth am y modd y maent yn adnabod ac yn archwilio'r tensiynau rhwng gwahanol faterion polisi a blaenoriaethau i alluogi trafodaeth ddiwyll am yr ymagweddau newydd sydd angen eu mabwysiadu.

11. Wrth gynllunio llesiant, rhaid i FGCau ddangos eu bod yn pennu amcanion ac yn gwneud penderfyniadau sy'n **adlewyrchu sut mae llesiant yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, yn hytrach nag adlewyrchu syniadau traddodiadol a dulliau traddodiadol o wneud pethau.

12. Dylai'r **ddyletswydd statudol i facsimeiddio cyfraniadau i'r nodau llesiant** sbarduno trafodaeth, dadleuon ac adroddiadau BGCau ar lesiant lleol yn hytrach na dim ond darparu cyd-destun cyffredinol.

13. Mae angen gwneud gwaith pellach i ddeall yn well y cyd-destunau, **y materion, yr heriau a'r cyfleoedd rhwng ac o fewn cymunedau yn ardaloedd BGC** (yn hytrach na dim ond ar lefel awdurdod lleol), a dylai hyn fod yn glir mewn cynllunio llesiant.

14. Mewn cynllunio llesiant, dylai BGCau egluro sut y maent yn **talw sylw i ddatblygiadau rhanbarthol, mecanweithiau cydweithio a chyfleoedd**.

15. Dylai BGCau ddatblygu mecanweithiau ar gyfer **casglu a defnyddio data ansoddol a mewnwelediadau seiliedig ar le**, yn arbennig oddi wrth y trydydd sector a'r sector preifat, a chydnabod yn llwyr y gwerth a ychwanegir drwy hyn at gynllunio llesiant.

16. Dylid **ystyried gwybodaeth a thystiolaeth oddi wrth gyrrff cyhoeddus** nad ydynt yn aelodau o FGCau fel rhan o gynllunio llesiant, i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gysylltu ag agendâu ehangach.

17. Dylai BGCau ystyried sut i **gysylltu cynlluniau llesiant â strategaethau a chynlluniau eraill**, yn cynnwys y rhai hynny sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth arall a'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd hyn yn galluogi meysydd allweddol o'r ddarpariaeth i fod yn rhan weithredol o'r darlun mwy o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

# Llesiant yng Nghymru: yr hyn a wyddom ac na wyddom

# Rhan 1

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn a ddywedir wrthym gan y19 asesiad llesiant am lesiant yng Nghymru – y materion allweddol a'r themâu a amlygir ganddynt. Mae hefyd yn amlinellu'r hyn na ddywedant wrthym – gwybodaeth neu ddata sydd ar goll, yn arbennig yn nhermau'r modd yr eir i'r afael â llesiant fel y caiff ei ddiffinio yn y Ddeddf.

Mae yna hefyd sylwebaeth gan bartneriaid allweddol a chyrff cenedlaethol â diddordeb yn y modd yr aethpwyd i'r afael â phynciau arbennig neu â grwpiau buddiant yn yr asesiadau.

## Pwrpas Rhif 1

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o ba wybodaeth a gafodd ei gynnwys yn yr Asesiadau Llesiant, a ble, ar ôl cael cyngor gan bartneriaid allweddol, yn fy marn, mae bylchau. Ei phwrpas yw rhoi darlun o 'Gymru gyfan' ar sail yr hyn a gafodd ei gynnwys yn yr asesiadau i amlygu arfer diddorol, gan alluogi BGCau i fanteisio ar gryfderau ei gilydd.




# Sut mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro

Yn gyffredinol defnyddiodd yr asesiadau llesiant un o bedwar strwythur:

Pum cyfnod y cylch bywyd	Canfyddiadau llesiant a nodwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol	Y saith nod llesiant

Elfen allweddol o fy adborth oedd y gallai'r asesiadau, yn gyffredinol, fod wedi galluogi mwy o integreiddio rhwng pynciau a materion ar draws llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Yn yr adran ganlynol, fy mwriad yw peintio darlun mwy integredig o lesiant yn amrywio o'r unigol i'r strategol. Fel yr eglurir gan y diagram isod y bwriad yw dechrau ar gychwyn bywyd person gan edrych ar y ffactorau lleol a chymunedol sy'n bwysig i lesiant, ac wedyn ystyried ffactorau ehangach, mwy cyffredinol, economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

# Esbonio llesiant: o'r unigolyn i'r strategol



# Pwysigrwydd cychwyn da mewn bywyd

## 1.1

Mae'r adran hon yn trafod sut mae'r asesiadau'n cydnabod pwysigrwydd cychwyn da mewn bywyd, a pha wybodaeth a ddefnyddir ganddynt.

**“Erbyn i blant Torfaen gyrraedd dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae ffactorau sy'n gysylltiedig â ble maen nhw'n byw eisoes yn effeithio ar eu pwysau, iechyd a llesiant.”**

Asesiad Llesiant Torfaen

# 78%

Yng Nghwmbrian Uchaf mae 78% o blant 0-4 mlwydd oed yn byw mewn cartrefi wedi eu hamddifadu o incwm.

Mae'r asesiadau'n tueddu i gydnabod bod plant sy'n cael cychwyn da mewn bywyd yn profi plentyndod hapusach ac iachach, sydd o fudd pellgyrhaeddol iddynt am weddill eu bywydau. Maent i gyd yn rhoi gwybodaeth am bwysau geni, cyfraddau bwydo ar y fron, imiwneiddio a disgwyliad oes, elfennau allweddol cychwyn da mewn bywyd. Mae llawer o'r asesiadau'n rhoi data am iechyd mamau beichiog, gan fod babanod mamau sy'n ysmegu neu sy'n ordew mewn mwy o berygl o ddatblygu ffyrdd afiach o fyw yn y dyfodol. Yn ôl y *New Scientist* mae mamau sy'n ordew tra'n feichiog yn fwy tebygol o gael babanod sy'n hŷn yn friolegol na babanod mamau â phwysau iach. Gallai hyn roi babanod mewn mwy o berygl o ddatblygu clefydau cronig ymhellach

ymlaen yn eu bywydau, a gallai ostwng eu disgwyliad oes.<sup>1</sup> Mae rhai asesiadau hefyd yn ystyried iechyd meddwl mamau beichiog a'r effaith y gallai hyn ei gael ar eu plentyn ar gychwyn bywyd.

Mae llawer o'r asesiadau'n rhoi gwybodaeth am ddarpariaeth a'r defnydd a wneir o raglenni sy'n cynorthwyo blynyddoedd cynnar megis Dechrau'n Deg. Mewn rhai achosion rhoddir data am lefelau cyrhaeddiad plant sydd wedi derbyn cymorth drwy'r fath raglenni yn 3 oed, ond ychydig iawn o ystyriaeth bellach a roddir i lwyddiant y disgyblion hyn drwy gydol y system addysg, efallai oherwydd nad yw'r data hyn wedi eu casglu neu am nad yw ar gael yn gyffredinol.

<sup>1</sup> 'Overweight mothers give birth to biologically older babies', *New Scientist*, 2016

Mae llawer o'r asesiadau'n cyflwyno ystod o ddata cymdeithasol ac economaidd am dlodi ac amddifadedd, ac yn cysylltu hyn â chyfleoedd bywyd plentyn. Caiff tlodi yn ystod plentyndod ei grybwyll ym mhob un o'r asesiadau, er bod gwahanol fesurau a mesurau procsi'n cael eu defnyddio. Mae Asesiad Torfaen yn amlinellu gwahaniaethau dybryd rhwng rhai o'i chymunedau: yng Nghwmbrân Uchaf mae 78% o blant 0-4 mlwydd oed yn byw mewn cartrefi â'u hincwm yn eu gwneud yn amddifad, tra mai dim ond 3% yn New Inn sydd yn profi'r un amgylchiadau.

**“Os nad ydych yn medru dod o hyd i swydd, os yr ydych mewn ardal dlawd lle nad oes llawer o swyddi ar gael... nid ydych yn medru cael popeth yr ydych yn dymuno ei gael, y pethau yr ydych yn breuddwydio am eu cael ar ôl i chi dyfu i fyny, felly rydych yn colli llawer o gyfleoedd ac mae eich llesiant yn isel.”**

[Disgybl ysgol uwchradd –  
Asesiad Llesiant Abertawe](#)

Mae pob un o'r asesiadau'n cyfeirio at bwysigrwydd ystyried Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n brofiadau trawmatig, ac sy'n digwydd cyn i blentyn gyrraedd 18 mlwydd oed ac sy'n cael eu cofio am weddill oes. Maent yn amrywio o ddiodeff camdriniaeth lafar, feddyliol, rywiol neu gorfforol, i gael eu magu mewn cartref lle mae trais domestig, camddefnydd o alcohol, rhieni'n gwahanu neu

gamddefnyddio cyffuriau. Dengys tystiolaeth bod plant sy'n diodeff straen yn ystod plentyndod neu'n cael plentyndod o ansawdd gwael yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd neu sy'n wrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â throedd ac yn y pen draw yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas.<sup>2</sup> Mae prinder data lleol am y niferoedd o blant sy'n profi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cael ei amlygu fel bwlch mewn llawer o'r asesiadau, er bod rhai'n gwneud defnydd o ddata perthnasol megis nifer diodeffwyr troseddau sy'n 17 mlwydd oed ac iau, a nifer teuluoedd un rhiant.

Yn gyffredinol mae'r rhannau am bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar yn rhoi ffocws pendant ar gymdeithas ac iechyd; yn nhermau pwysigrwydd amgylchedd iach o'r cychwyn cyntaf, gellid rhoi mwy o ystyriaeth i systemau naturiol sy'n sicrhau ac yn cynorthwyo bywyd, yn cynnwys darparu aer iach, dŵr glân a thyfu bwyd.

**“Yn Wrecsam cofnodwyd oddeutu 380 o droseddau treisgar domestig. Roedd 50% o'r achosion mewn rhyw ffordd yn ymwneud â phlant o dan 16. Roedd oddeutu 40% yn ymwneud â phlant o dan bump.”**

Asesiad Llesiant Wrecsam

### Casgliadau

Mae pob asesiad yn cydnabod pwysigrwydd cychwyn da mewn bywyd i ryw raddau. Fodd bynnag mae'r mesurau a'r dystiolaeth a ddefnyddir i ddangos hyn yn gymharol gyfyng ac yn ffocysu ar faterion iechyd a materion cymdeithasol. Ychydig iawn o gyfeiriad a wneir, er enghraifft, at ansawdd yr amgylchedd, llygredd aer a.y.b. ac effaith hyn ar iechyd yn y blynyddoedd cynnar neu a oes mwy neu lai o fynediad i fannau gwyrdd mewn ardaloedd o amddifadedd. Yn unol

â rhai o'r negeseuon allweddol yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, gellid rhoi mwy o ystyriaeth i'r ystod o ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n cynorthwyo llesiant plentyn o'r foment y caiff ei g/eni (neu ei ch/genhedlu) yn cynnwys er enghraifft ansawdd yr amgylchedd lleol, diogelwch cymunedau (daeryddol a mathau eraill o gymuned), ffyniant y cartref a'r mynediad i gyfleoedd o oed ifanc.

<sup>2</sup> 'Profadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru', *Iechyd Cyhoeddus Cymru* 2015

# Rôl mannau agored a lleoedd mewn llesiant pobl

## 1.2

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r asesiadau'n siarad am fannau agored a lleoedd, a sut maent yn ffurfio'n llesiant.

Yn ôl ymchwil y RSPB, plant yng Nghymru sydd â'r cysylltiad lleiaf â natur yn yr holl DU, er bod llawer ohonynt yn byw yn rhai o'r mannau gwledig harddaf sydd gan y genedl i'w cynnig.<sup>3</sup> Mae llawer o'r asesiadau'n rhoi data a naratif am amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth eu hardal, yn cynnwys cipolwg yn awr ac yn yman ar y modd y maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag yn gyffredinol caiff hyn ei gynnwys mewn adran am yr

'amgylchedd' heb lawer o gyfeiriadau at werth yr amgylchedd naturiol i lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliaid allweddol o Ran 2 yr adroddiad hwn – sef bod angen mabwysiadu ymagwedd fwy integredig tuag at ddehongli data a dylai fod yna fwy o archwiliad o'r rhyngberthynas rhwng darnau o dystiolaeth.

**“Mae cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored yn hollbwysig; mae chwarae yn yr awyr agored nid yn unig yn cyfrannu at y canllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgaredd corfforol ond mae ymchwil o sylwedd wedi darganfod bod buddiannau ychwanegol yn cynnwys llesiant meddwl mewn plant, datblygiad deallusol, teimlad cryfach o berthyn i ysgol a chymuned a gwell ymddygiad yn deillio o fwy o gysylltiad â'r amgylchedd naturiol.”**

Asesiad Llesiant Ceredigion

<sup>3</sup> 'Four out of five UK children not connected to nature', The Guardian, 2013

**“Rydym yn byw mewn ardal anhygoel, ond mae llawer o bobl yn byw mewn ardaloedd erchyll o’i mewn a byth yn mynd i’r traeth. Ni fedrant oherwydd cost trafndiaeth.”**

Ymateb i ymgysylltiad – Asesiad Llesiant Abertawe

**“Mae’r tirlun, yr adeiladau, yr amgylchedd naturiol a’r ieithoedd a siaredir yng Nghwm Taf yn bethau sy’n helpu pobl i deimlo’u bod yn perthyn, sy’n cael effaith dda ar hapusrwydd a llesiant.”**

Asesiad Llesiant Cwm Taf

# 1,600

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru’n amcangyfrif bod nifer sy’n cyfateb i 1,600 o farwolaethau’n cael eu priodoli i amlygiad i lwch man cronynol.

Mae llawer o’r asesiadau’n rhoi peth data defnyddiol am hygyrchedd mannau agored gwyrdd a natur i bobl, er enghraifft faint o orchudd coed a geir mewn ardaloedd dinesig a mynediad i fannau agored gwyrdd a glas. Yng Nghaerdydd mae’r ardaloedd â’r lleiaf o fynediad i fannau agored gwyrdd hefyd yn fannau lle gwelir y graddfeydd uchaf o bob math o drosedd yn ogystal â chanlyniadau iechyd gwaeth. Tra dylid gwneud rhagor o waith i ddeall yn well beth mae hyn yn ei olygu yn nhermau cynllunio llesiant mae hwn yn bwynt defnyddiol a mwy integredig fel man cychwyn.

Cyfeirir at ansawdd aer yn y rhan fwyaf o’r asesiadau, gyda rhai yn ffocysu ar ddata ar gyfer cymunedau unigol tra bo eraill yn ffocysu ar ardal yr awdurdod lleol. Mae’r rhan fwyaf o’r asesiadau’n cynnwys yr wybodaeth hon mewn adran ar yr ‘amgylchedd’, gan gollir cyfle i gysylltu ansawdd aer â materion

economaidd-gymdeithasol ehangach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru’n amcangyfrif bod nifer sy’n cyfateb i 1,600 o farwolaethau’n cael eu priodoli i amlygiad i lwch mân cronynol, a 1,100 i allyriadau nitrogen deuocsid, bob blwyddyn yng Nghymru.<sup>4</sup>

Mae llawer o’r asesiadau’n ei gwneud yn glir pa mor bwysig yw’r mannau agored lleol a lleoedd i lesiant – pobl yn teimlo cysylltiad rhyngddynt â’r gymuned, treftadaeth, tirwedd ac adeiladau. Roedd hon yn thema gyson yn llawer o’r ymgysylltiad â’r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid. Fe’i crybwyllwyd yn gyson fel ased a gydnabyddir yn eang ac a werthfawrogir; roedd yn amlwg bod gan bobl farn gref am ansawdd lleoedd yn eu cymuned a’u hamgylchedd.

<sup>4</sup> ‘Darganfyddwyd bod llygredd aer yn gwaethygu cysylltiadau sydd eisoes yn gryf rhwng amddifadedd ac afiechyd’, *Iechyd Cyhoeddus Cymru*, 2016

“Mewn ardaloedd preswyl yng Nghaerdydd, mae crynodiadau NO<sub>2</sub>ar gyfartaledd yr uchaf yng Nghymru. Mae'r lefelau NO<sub>2</sub> a ddarganfyddir yng nghanol y ddinas hefyd yr uchaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru ac yn uwch na therfynau llygredd yr UE. Er gwaethaf y ffeithiau uchod, mae Caerdydd yn rhannu'r pedwerydd lle ymhlith prifddinasoedd Ewrop yn nhermau boddhad preswylwyr ag ansawdd yr aer. Gall fod hyn yn dangos yr angen i addysgu dinasyddion Caerdydd am oblygiadau ansawdd aer gwael a beth y gallant ei wneud (yn nhermau defnyddio dulliau mwy cynaliadwy o deithio, er enghraifft), i'w wella.”

Asesiad Llesiant Caerdydd

### Casgliadau

Mae'r asesiadau'n cydnabod pwysigrwydd mannau agored a lleoedd lleol, yn cydnabod eu rolau yn llesiant pobl ac yn ystyried sut mae pobl yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio gyda'r lleoedd hyn. Fodd bynnag, ychydig o ystyriaeth a ddangoswyd gan yr asesiadau llesiant o arwyddocâd neu achosion gwahaniaethau gofodol, yn cynnwys: disgwyliad oes; dosbarthiad ac unigedd preswylwyr oedrannus; y gwahaniaethau rhwng gwledig a dinesig neu gymunedau mewndirol ac arfordirol; colli bioamrywiaeth; diogelwch cymunedau neu effaith y newid yn yr hinsawdd. Disgrifwyd y rhain fel problemau perthnasol, ond parhau heb ei archwilio wnaeth eu heffaith lleol ar lesiant. Mae gan bob awdurdod lleol gyfoeth o syniadau, dadansoddiadau a dehongliadau o'r Cynllun Datblygu Lleol, yn cynnwys arfarniadau cynaliadwyedd ac asesiadau strategol, a allai fod wedi trwytho gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â lle penodol a heriau i'r modd y defnyddir tir yn negawdau'r dyfodol. Mae hyn yn enghraifft o werth data ansoddol seiliedig ar le yn deillio o sefydliadau partneriaethau'r BGC.

Mae data ansoddol oddi wrth bobl sy'n gweithio yn y cyrff hyn yn anhygoel o werthfawr, a dim ond mewn rhai achosion yr oedd yn glir bod y math hwn o wybodaeth leol yn trwytho dealltwriaeth yr asesiad llesiant o wahaniaethau gofodol. Bydd gwell integreiddio rhwng y gweithgareddau hyn o fewn y BGC yn helpu i sicrhau bod cynlluniau llesiant yn medru gwella'u cymorth i lesiant lleol cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Bydd hefyd yn arwydd clir o'r modd y mae BGCau yn ychwanegu gwerth.

**Mae tystiolaeth oddi wrth Chwareon Cymru'n awgyrmu bod llesiant pobl yn dibynnu ar eu cymhelliant, eu gallu a'r cyfle i fod yn weithgar yn gorfforol yn rheolaidd. Rhaid i'r cyfleusterau sy'n cyflenwi'r cyfleoedd hynny fod yn gynhwysol, yn ddeniadol, yn hygyrch ac effeithlon a rhaid iddynt fod yr hyn sydd eu hangen ar gymunedau. Dylai asesiadau llesiant fynd gam ymhellach wrth greu cysylltiadau â iechyd corfforol a meddyliol a chyfleoedd i gyrchu natur.**

# Atal afiechyd ac ymddygiadau niweidiol i iechyd

## 1.3

Mae'r adran hon yn ffocysu ar sut mae'r asesiadau'n cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth am bwysigrwydd iechyd da, atal afiechyd ac ymddygiadau niweidiol i iechyd.

A graphic showing the text 'TACKLE OBESITY BY TEACHING YOUNG PEOPLE HOW TO COOK!' written in blue, hand-drawn letters on a background of light blue horizontal lines, resembling lined paper.

Delwedd o ymgysylltiad y Blaenau Gwent a Garem

# 2%

“...yng Ngwent, dim ond 2% o'r preswylwyr yn 2013-14 (16 oed a hŷn) a gymerodd ran ym mhob un o'r 5 ymddygiad iechyd.”

Mae pob un o'r asesiadau'n rhoi gwybodaeth am y gyfran o bobl sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw perthnasol yn cynnwys cwrdd â chanllawiau gweithgaredd corfforol, bwyta pump y dydd, ysmegu, defnyddio alcohol a phwsiau. Fodd bynnag, yn aml mae yna ddiffyg dadansoddiad o'r hyn a olyga'r datblygiadau yn yr ymddygiadau hyn i ddatblygiadau mewn iechyd ehangach a llesiant – er enghraifft os ydyw cyfraddau

ysmygu neu ddefnyddio alcohol yn gostwng ond gweithgaredd corfforol a chyfraddau bwyta'n iach heb fod yn gwella hefyd, beth a olyga hyn i ganlyniadau iechyd. Yn y bumed rhan fwyaf amddifad o Gymru, mae marwolaeth y gellid ei hatal yn cyfrif am 25% o holl farwolaethau ymhlith dynion ac 20% o holl farwolaethau ymhlith menywod. Mae'r ffigurau hyn dipyn yn is yn y bumed rhan leiaf amddifad, ar 18% ac 14% yn y drefn honno.<sup>5</sup>

<sup>5</sup> 'Mesur Anghydraddoldebau', *Iechyd Cyhoeddus Cymru*, 2017



# 25%

Awgryma Rhaglen Foresight Llywodraeth y DU y gallai 25% o blant o dan 16 oed fod yn ordew erbyn y flwyddyn 2050.

Mae pob un o'r asesiadau'n tynnu sylw at ordewdra, ac yn arbennig ordewdra ymhlith plant, fel her allweddol wrth symud ymlaen. Mae Rhaglen 'Foresight' Llywodraeth y DU yn awgrymu y gallai 25% o holl blant o dan 16 fod yn ordew erbyn 2050,<sup>6</sup> ac mae gan Gymru'r lefel uchaf o ordewdra ymhlith plant yn y DU.

Bwlch mewn llawer o'r asesiadau yw unrhyw fapio data arall perthnasol yn erbyn lefelau gordewdra ymhlith plant – er enghraifft mae llawer o'r asesiadau'n dangos bod cyfraddau gweithgaredd corfforol ymhlith plant yn gwella ond mae gordewdra ymhlith plant hefyd yn cynyddu (ac yn ôl y rhagolygon yn mynd i barhau) ond ychydig o ystyriaeth a roddir i'r rhesymau am hyn. Mae hyn yn cysylltu â'r neges allweddol yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, bod angen archwilio'r gydberthynas rhwng darnau o dystiolaeth yn helaethach, ynghyd ag archwiliad o 'felly beth a olygir gan y data hwn?' a 'beth a awgrymir ganddo sydd angen eu newid?'

Yn nhermau gweithgaredd corfforol mae'r gwahaniaeth rhwng cenedlaethau'n aml yn amlwg. Er enghraifft yng Nghastell Nedd Port Talbot mae 40% o oedolion heb fod yn gorfforol weithgar ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (a hyn yn uwch na'r cyfartaledd o 34% yng Nghymru) ond mae gan yr ardal y gyfran uchaf o ddisgyblion 3-11 sydd 'wedi gwirioni ar chwaraeon' a'r aelodaeth uchaf o glybiau chwaraeon yng Nghymru.

Mae bwyta afiach yn ymddangos fel problem sydd ar gynnydd, gyda chyfrannau isel o bobl yn bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau bob dydd a rhagolygon y bydd hyn yn parhau i ostwng hyd 2025. Mae rhai asesiadau'n rhoi gwybodaeth ar y modd y mae hyn yn cysylltu â ffactorau ehangach, er enghraifft trwy ddata am nifer o bobl sydd wedi mynd heb bryd o fwyd yn y pythefnos diwethaf, neu sydd wedi dweud bod problemau ariannol wedi eu stopio rhag gwahodd ffrindiau i'r tŷ am bryd o fwyd, ond mae yna ddiffyg ystyriaeth o'r rhesymau ehangach dros y cynnydd mewn bwyta bwyd afiach ac ystyriaeth o rôl y gwasanaethau cyhoeddus yn y dasg o fynd i'r afael â hyn.

**Mae tlodi bwyd yn golygu methu fforddio bwyd neu fethu cyrchu bwyd ar gyfer diet iach. Mae'n ymwneud nid yn unig â faint o fwyd a fwyteir, ond hefyd â chael mynediad corfforol i siopau sy'n gwerthu bwydydd iach ac arferion cymdeithasol sy'n effeithio ar ba fwyd gaiff ei fwyta."**

Asesiad Llesiant Caerdydd

<sup>6</sup> 'Tackling obesity: future choices – modelling future trends in obesity and their impact on health', *Government Office for Science*, 2007

Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau'n cynnwys gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, yn cynnwys lefelau'r defnydd o alcohol, derbyniadau i ysbyty'n dilyn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chysylltiad â materion fel troseddu, camdriniaeth domestig a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Darparodd rhai asesiadau fewnwelediad diddorol i'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd – er enghraifft yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg mae cyfraddau'r

defnydd o alcohol mewn ardaloedd llai difreintiedig yn uchel ond mae derbyniadau i ysbyty yn uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gall mai'r rheswm am hyn yw, fel y dywedir gan Asesiad Torfaen: bod yfwyr mewn cymunedau incwm isel bron 11 gwaith yn fwy tebygol o gyfuno yfed trwm ag ymddygiadau niweidiol eraill.

[Atgyfeirio sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau] “oed yr unigolion a atgyfeiriwyd, ar gyfartaledd, oedd 41...yr oedd gan 64% o'r rhai oedd yn profi materion camddefnyddio sylweddau hefyd faterion yn ymwneud â chyflogaeth ac nid oeddent mewn gwaith, roedd gan 7% broblemau tai ac roedd 33% yn profi problemau iechyd meddwl.”

Asesiad Llesiant Castell Nedd Port Talbot

### Casgliadau

Mae'n glir bod yna gyfoeth o ddata ar gael am atal afiechyd ac ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd, ac mae hyn wedi ei amlygu yn llawer o'r asesiadau. Fodd bynnag, er bod llawer o'r tueddiadau iechyd yn frawychus – er enghraifft rhagolygon am lefelau gordewdra a bylchau arwyddocaol mewn disgwyliad oes iach mewn gwahanol gymunedau – nid

yw'r asesiadau'n aml, neu bob amser, yn twrio'n ddyfnach i mewn i'r data i adnabod achosion a rhyng-gysylltiadau a gofyn a ydyw ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gwneud yr hyn sydd ei angen ar gyfer mynd i'r afael â'r tueddiadau hyn (trafodir y pwynt hwn yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn).

# Iechyd meddwl a llesiant

## 1.4

Mae'r adran hon yn egluro sut mae'r asesiadau'n cyflwyno gwybodaeth am iechyd meddwl a llesiant.

# 10%

Ar lefel Cymru-gyfan mae tua 10% o blant yn dioddef oddi wrth broblemau iechyd meddwl megis straen, pryder ac iselder.

Mae llawer o'r asesiadau'n amlygu iechyd meddwl fel mater allweddol, gan roi data am y nifer o oedolion sy'n nodi eu bod yn derbyn triniaeth am salwch meddyliol, cyfraddau hunanladdiad a chyfraddau hunan-niwed. Mae llawer o'r asesiadau'n cymharu'r nifer o oedolion sy'n cael triniaeth iechyd meddwl yn erbyn y sgôr llesiant meddyliol a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Iechyd Cymru. Mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu bod llawer mwy o bobl yn dioddef problemau iechyd meddwl mewn rhai ardaloedd na'r rhai sydd wedi nodi eu bod yn derbyn triniaeth am faterion iechyd meddwl.

Yn ôl Asesiad Caerdydd, mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn debygol o brofi symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed a llawer pan fyddant yn llawer iau, a ddylai olygu y gall gwasanaethau ddarparu ar gyfer eu hanghenion yn y dyfodol i ryw raddau. Caiff iechyd meddwl plant a phobl ifanc ei drafod yn llawer o'r asesiadau – yng Nghymru mae oddeutu 10% o bobl â phroblemau iechyd meddwl megis straen, gofid ac iselder.<sup>7</sup> Yng ngogledd Cymru mae'r nifer o ddigwyddiadau hunan-niwed ymhlith plant a phobl ifanc wedi dyblu rhwng 2012-13 a 2015-16.<sup>8</sup>

**“Angen gwell gwasanaethau iechyd meddwl yn arbennig i blant a phobl ifanc.”**

Preswlydd Casgwent, 34 mlwydd oed –Asesiad Llesiant Sir Fynwy

<sup>7</sup> Iechyd meddwl yng Nghymru: ffeithiau sylfaenol 2016', *Sefydliad Iechyd Meddwl*

<sup>8</sup> Arolwg Iechyd Cymru 2013-14, *Llywodraeth Cymru*

Tra caiff iechyd meddwl plant ei drafod mewn llawer o'r asesiadau, mae yna gyfle i roi mwy o ystyriaeth i rannau eraill o'r boblogaeth. Er enghraifft tra bo'r rhan fwyaf o'r asesiadau'n crybwyll dementia fel salwch meddwl sy'n fwy cyffredin yn aml ymhlith pobl hŷn, ychydig o ystyriaeth a roddir i'r mathau eraill o salwch meddwl a brofir gan bobl hŷn megis iselder. Hefyd, awgryma tystiolaeth bod poblogaeth carchardai mewn mwy o berygl o brofi problemau iechyd meddwl, ac roedd cyfraddau aildroseddu ymhlith y rhai â phroblemau iechyd meddwl yn uwch na'r rhai nad oedd yn profi problemau iechyd meddwl,<sup>9</sup> ond ni chaiff hyn ei grybwyll mewn asesiadau. Mae byw mewn cartref lle mae aelod o'r teulu'n profi iechyd meddwl gwael hefyd wedi ei nodi fel profiad niweidiol yn ystod plentyndod, ac felly dylid gwneud y cysylltiad rhwng plant sy'n byw yn y cartrefi hyn yn ogystal ag unigolion sydd eu hunain yn profi iechyd meddwl gwael.

Yn gyffredinol mae diffyg ystyriaeth o benderfynyddion ehangach iechyd meddwl gwael a rôl ffactorau megis mynediad i gyfleoedd, mynediad i, a'r defnydd o fannau agored gwyrdd, y teulu ehangach a dylanwadau cymdeithasol.

Mae rhai asesiadau wedi defnyddio gwybodaeth o Arolwg Iechyd Cymru i ragweld y nifer o bobl â phroblemau iechyd meddwl i fyny at 2035 – er enghraifft cafodd y graff isod ei gynnwys yn rhai o Asesiadau Gogledd Cymru.

**“Mae ymchwil diweddar wedi cysylltu'r cynnydd sydyn yn nifer menywod ifanc rhwng 16 a 24 â phroblemau iechyd meddwl â'r ffaith mai hwy yw'r cohort cyntaf sydd wedi dod i oed yn oes cyfryngau cymdeithsol hollbresennol.”**


Asesiad Llesiant Ceredigion

**“Gall cymorth iechyd meddwl, cwnsela, cymorth un i un, mynediad i gampfa, staff sy'n gyffredinol empathig wneud gwahaniaeth mawr i fywyd person.”**

Ymateb i ymgysylltiad – Asesiad Llesiant Bro Morgannwg

## Nifer o bobl 16 oed a hyn sy'n debygol o gael problem iechyd meddwl, Gogledd Cymru, 2015 i 2035.

Sources: 2011-based population projections, Welsh Government, Daffodil database, Institute for Public Care



### Casgliadau


Wrth i FGCau fynd rhagddynt i gynllunio llesiant mae angen meddwl mwy am y modd y gall cymunedau a gwasanaethau feithrin llesiant iechyd da yn ogystal â mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl. Mae rhan allweddol o hyn yn cysylltu ag un o'r argymhellion yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn – sef adeiladu dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau bywyd pobl, gan ganolbwyntio'n benodol yn yr achos hwn ar yr hyn sy'n cynorthwyo llesiant meddyliol da, drwy ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd gan sefydliadau BCCau am lesiant pobl.

**Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru tra bo'r rhan fwyaf o'r asesiadau'n amlygu pwysigrwydd iechyd meddwl, mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn ffocysu'n bennaf ar salwch meddwl fel problem sydd angen ei datrys yn hytrach na ffocysu ar lesiant iechyd meddwl da fel ased i bobl a chymunedau. Mewn llawer achos ymddengys bod ffocysu ar broblemau a heriau ar draul asedau a chyfluoedd yn ymagwedd gyffredinol mewn nifer o asesiadau.**

# Sgiliau a chymwysterau – ydyn nhw'n addas ar gyfer y dyfodol?

## 1.5

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r asesiadau'n trafod pwysigrwydd a rolau sgiliau a chymwysterau.



Delwedd o ymgysylltiad y Blaenau Gwent a Garem

# 65%

Bydd 65% o blant sy'n cychwyn yr ysgol heddiw yn y pen draw yn gweithio mewn mathau newydd o swydd nad ydynt eto'n bodoli.

Mae pob un o'r asesiadau'n cynnwys data a naratif am lefelau cyrhaeddiad drwy holl gyfnodau ysgol, ac mae llawer yn rhoi naratif defnyddiol am gysylltiadau rhwng cyrhaeddiad a lefelau tlodi, a'r mesur mwyaf cyffredin yn seiliedig ar lefelau cyrhaeddiad cymharol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ychydig o ystyriaeth a roddir i rôl pynciau ysgol tu hwnt i gyrhaeddiad – bydd sgiliau ym mhynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a

mathemateg) yn parhau i fod yn bwysig ond mae angen hefyd i'n plant fod yn hapus ac iach ac mae rôl dysgu yn natblygiad deallusrwydd emosiynol yn rhywbeth y gellid rhoi mwy o ystyriaeth iddo gan FGCau. Hefyd bydd yn bwysig cydnabod pwysigrwydd llythrennedd ffisegol sy'n golygu bod gan berson gatalog o sgiliau technegol ynghyd â'r hyder a'r ysgogiad i gymryd rhan mewn llawer o wahanol chwaraeon a gweithgareddau corfforol ym mhob cyfnod o'u bywyd.<sup>10</sup>

<sup>10</sup> "Llythrennedd Corfforol: taith drwy fywyd: Chwaraeon Cymru, 2017

# 2050

Bydd y galw am bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg ymhlith cyflogwyr yng Nghymru'n cynyddu, wrth i ni symud tuag at y dyhead o weld miliwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050.

Tra bo rhai asesiadau'n cynnwys gwybodaeth am brentisiaethau a rhaglenni dysgu seiliedig yn y gweithle, yn gyffredinol ychydig o ystyriaeth a roddir i bwysigrwydd ennill cymhwyster a datblygu sgiliau drwy gydol oes, a hygyrchedd adeiladu'r math hyn o sgiliau. Er enghraifft mae llawer o asesiadau'n cynnwys, mewn gwahanol adrannau, ddata a naratif am sgiliau ac am wirfoddoli, ond nid ydynt yn pwysleisio bod cyfleoedd gwirfoddoli'n fecanwaith allweddol ar gyfer datblygu sgiliau ac yn medru cyfoethogi bywydau ym mhob oed.

Mae yna hefyd ddiffyg sylw yn yr asesiadau i sgiliau'r iaith Gymraeg, cymwysterau a enillir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r galw am sgiliau'r iaith Gymraeg mewn gwahanol sectorau o'r economi. Bydd y galw am bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg ymhlith cyflogwyr yng Nghymru'n cynyddu, wrth i ni symud tuag at y dyhead o weld miliwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050.

Yn ôl Fforwm Economaidd y Byd, bydd 65% o blant sy'n cychwyn yr ysgol heddiw yn y pen draw yn gweithio mewn mathau newydd o swyddi nad ydynt eto'n bodoli<sup>11</sup> a bydd creadigrwydd a deallusrwydd emosiynol yn rhai o'r deg sgil uchaf a fydd ar weithwyr eu hangen. Gyda'r tebygrwydd y bydd deallusrwydd artifiisial yn gwneud llawer o'r swyddi gwaith llaw a chlerigol, bydd y rhan fwyaf o swyddi newydd mewn meysydd arbenigol fel cyfrifiadura, mathemateg, pensaerniaeth a pheirianeg.

Ychydig iawn (neu ddim un?) a ystyriodd effaith awtomatiaeth a deallusrwydd artifiisial yn y tymor hwy (neu hyd yn oed yn y tymor byr neu ganolog mewn llawer achos) ar swyddi ym mhob ardal ac yn arbennig sut y gallai hyn fod yn her i sectorau neu grwpiau arbennig o bobl. Nid yw'r asesiadau ar y cyfan yn gofyn ai'r sgiliau a'r cymwysterau y mae pobl yn medru eu cyrchu heddiw yw'r rhai hynny y bydd eu hangen yn y dyfodol.


“[Yng nghyfnod allweddol 4] mae'r bwloch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim â'r rhai nad ydynt bron yn 28% (27% o'i gymharu â 55%). Bwloch cyrhaeddiad Cymru-gyfan yw 32%. Mae hwn yn fwloch llawer mwy na'r un a welir yn y cyfnod sylfaen neu gyfnod allweddol 2, sy'n awgrymu bod anghydraddoldebau'n ehangu wrth i blant symud drwy'r system addysg.”

Aesiad Llesiant Wreccsam

<sup>11</sup> 'The future of jobs: employment, skills and workforce strategy for the fourth industrial revolution', *World Economic Forum*, 2016

Hefyd, ychydig o wybodaeth a gafwyd am brinder sgiliau ym mhob un o'r ardaloedd ac am yr angen i broffilio'r sgiliau sydd eu hangen yn seiliedig ar dueddiadau'r dyfodol a rhaglenni seilwaith cynlluniedig. Awgryma hyn y gall fod yna ddatgysylltiad rhwng asesiadau llesiant a'r sector preifat a'r gwaith sy'n digwydd mewn partneriaethau sgiliau rhanbarthol.

Fodd bynnag mae rhai asesiadau wedi talu peth sylw i hyn – er enghraifft mae Aseiad Conwy-Sir Ddinbych yn cyfeirio at adroddiad o Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU sy'n amlygu heriau sy'n wynebu sectorau cyflogi allweddol, yn cynnwys pryder am y nifer fawr o raddedigion sydd ar hyn o bryd yn gadael y brifysgol heb y sgiliau technegol diweddaraf, neu'r sgiliau meddal sydd eu hangen i fod yn effeithiol yn y gweithle.<sup>12</sup>



Delwedd o ymgysylltiad y Blaenau Gwent a Garem

### Casgliadau

Mae pwysigrwydd datblygu sgiliau a chymwysterau'n cael eu cydnabod ym mhob un o'r asesiadau ac mae hwn yn fater allweddol a amlygir gan yr ymgysylltiad mewn llawer ardal, gyda phobl yn amlwg yn pryderi ynghylch yr angen i bobl ifanc gael y sgiliau cywir i'w paratoi ar gyfer y dyfodol.

Fodd bynnag, mae lle i roi mwy o ystyriaeth i'r system ysgolion, pynciau a gynigir a chymwysterau a enillir mewn

perthynas â'r diwydiannau sy'n debygol o chwarae rôl allweddol yn y dyfodol. Mae'n amlwg bod gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi sefydlu'r cwricwlwm cenedlaethol, hefyd rôl i'w chwarae yn hyn o beth. Prin yw'r asesiadau sy'n rhoi llawer o fanylion am ddarparwyr addysg bellach ac uwch yn eu hardaloedd, felly mae angen gwaith pellach hefyd i ddeall eu rolau hwy wrth sicrhau sgiliau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

<sup>12</sup> 'Sector insights reports', UK Commission for Employment and Skills, 2015



# Sut mae lleoedd yn gwasanaethu poblogaethau - seilwaith ac amgylchedd 1.6

Mae'r adran hon yn egluro sut mae asesiadau'n cynnwys gwybodaeth am y modd y mae eu hardaloedd lleol yn gwasanaethu eu poblogaethau, drwy eu seilwaith – seilwaith a grëwyd gan ddyn a seilwaith naturiol.

“Mae gan y modd yr ydym yn defnyddio a rheoli tir ddolen adborth sydd yn ei hanfod yn effeithio ar y buddiannau yn y dyfodol yr ydym ni yn medru eu derbyn oddi wrthi.”

Asesiad Llesiant Castell Nedd Port Talbot

“Mae lleoedd gwyrdd trefol a'r rhai ar ymylon trefydd yn diflannu; mae'n dod yn fwy anodd i 'gamu dros y trothwy' a darganfod man agored i anadlu ynddo.”

Sylw o ymgysylltiad – Asesiad Llesiant Bro Morgannwg

## 35%

Mae 35% o bobl dros 50 oed wedi eu hallgau yn ddigidol.

Cynhwysir data a naratif am drafnidiaeth yn yr holl asesiadau, yn cynnwys data am berchnogaeth cerbydau, capasiti heolydd, y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a chyfraddau teithio llesol (cerdded a beicio). Mae sawl un o'r asesiadau'n nodi bod llawer o dwristiaid yn cerdded a beicio yn yr ardal, ond mae yna brinder mynediad i lwybrau diogel, oddi ar y ffordd ar

gyfer teuluoedd a chymudwyr. Nodir gan Asesiad Caerdydd bod yna gyfle gwirioneddol ar gyfer mwy o deithio llesol, gan fod 57% o breswylwyr yn cymudo pellter o lai na pum cilomedr.

Caiff seilwaith a'r modd y mae'n galluogi mynediad i wasanaethau ei amlygu ym mhob un o'r asesiadau. Mae hyn yn cynnwys mesurau am fynediad i fand eang a rhwydweithiau ffonau symudol: amlygir diffyg mynediad fel rhwystr allweddol i lesiant economaidd yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae rhai o'r asesiadau'n pwysleisio pwysigrwydd mynediad i gysylltiadau rhyngrwyd o ansawdd er mwyn sicrhau bod cartrefi'n medru cyrchu amrywiaeth o wasanaethau sy'n sicrhau bod plant yn medru datblygu sgiliau digidol. Crybwyllir allgáu digidol yn rhai o'r asesiadau, yn arbennig mewn perthynas â phobl hŷn: yn ôl Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru, mae 35% o bobl dros 50 oed wedi eu hallgáu yn ddigidol.<sup>13</sup>

Mae'r asesiadau i gyd yn egluro i ryw raddau y berthynas rhwng cymunedau a'u hamgylchedd lleol, yn aml yn rhestru asedau lleol naturiol megis fforestydd, parciau, afonydd a phyllau, ac yn egluro pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol yn narpriaeth cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd oriau hamdden, rhyng-gysylltiad ac ymgysylltiad, a'r buddiannau i lesiant corfforol a meddyliol sy'n deillio ohonynt.

Yn ôl adroddiad Cyflwr Natur yng Nghymru 2016 mae un o bob 14 rhywogaeth yn debygol o ddiflannu, a dros yr hirdymor (1970-1913) mae 57% o blanhigion gwyllt a 40% o adar wedi lleihau mewn nifer.<sup>14</sup> Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau'n nodi breuder bioamrywiaeth lleol, yn arbennig oherwydd darniad cynefinoedd oherwydd gweithgareddau datblygu ac elfennau sy'n amharu ar goridorau bywyd gwyllt. Ychydig iawn o'r asesiadau sy'n ystyried dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n lleihau niwed i'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, a fydd yn hanfodol ar gyfer atal dirywiad pellach yn y dyfodol.

**“Mae ystadegau amaeth ar gyfer Sir Fynwy'n awgrymu petai holl breswylwyr y sir yn bwyta'r pump darn o ffrwyth a llysiau a argymhellir yn ddyddiol o dir yn Sir Fynwy, byddai angen i gynnyrch presennol fod yn 30 gwaith yn fwy! Petai 3 y dydd yn cael eu bwyta o dir Sir Fynwy, byddai angen i gynnyrch fod 18 gwaith yn fwy”.**

[Asesiad Llesiant Sir Fynwy](#)

Mae amaeth yn ddiwydiant allweddol mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, ac mae llawer o'r asesiadau'n cynnwys gwybodaeth am y nifer o swyddi mewn mentrau amaethyddol. Eto roedd dadansoddiad o heriau yn y tymor canolig a'r hirdymor yn brin mewn llawer o'r asesiadau gyda dim ond ychydig o ystyriaeth yn cael ei roi i heriau'r dyfodol i ffermio, yn cynnwys y nifer o bobl ifanc sy'n gadael ardaloedd gwledig, goblygiadau Brexit, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'r angen i bobl fwyta bwyd iachach.

**“Amaeth yw'r sector mwyaf ar yr ynys, ac mae angen i ni ystyried sut fydd ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar ein ffermwyr. Heb amheuaeth, caiff materion fel y newid yn yr hinsawdd hefyd effaith...mae angen i ni fod mewn sefyllfa i gynorthwyo'r sector hwn ac eraill i ymateb i'r newidiadau hyn mewn dull cadarnhaol.”**

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

<sup>13</sup> 'Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru a'i Gynllun Cyflawni', *Llywodraeth Cymru*, 2016

<sup>14</sup> 'The State of Nature 2016', RSPB

Mewn rhai o'r asesiadau crybwyllwyd rôl lleoedd lleol yn y gwaith o alluogi cynhyrchu ynni adnewyddol gyda pheth data am y mathau o brosiectau adnewyddol a chyfanswm capasiti gosod. Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu peth dadansoddiad o hyn a allai ddarparu cyd-destun defnyddiol i'r BGCau fyfyrio arno.

Ychydig o sylw a roddwyd i botensial lleoedd i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddol o bersbectif darparu cyfleoedd i'r economi, y gymuned a lleihad mewn carbon, ond roedd barn preswylwyr lleol am gynhyrchu

ynni adnewyddol (sydd wedi bod yn amlwg mewn rhai rhannau o Gymru) hefyd ar goll. Mae hyn yn enghraifft o faterion dadleuol yn cael eu hosgoi yn aml gan asesiadau llesiant sy'n awgrymu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus efallai, yn methu nodi'r cyd-destun lle gallent a lle dylent fod yn cynnal trafodaeth am densiynau a chyfnewidiadau ar draws gwahanol faterion a nodau llesiant.

**“Powys sy'n arbed y mwyaf o CO2 drwy wneud defnydd o osodiadau cynhyrchu adnewyddol yng Nghymru...mae eu defnydd o wynt ar y tir yn cynrychioli'r arbediad mwyaf o CO2 ym Mhowys, gyda ffermydd gwynt yn darparu 65%...a biomas yw'r arbediad mwyaf nesaf ar 25% o'r cyfanswm.”**

Asesiad Llesiant Powys

### Casgliadau

Cyflwynodd yr asesiadau ystod o wybodaeth am y modd y mae lleoedd yn cynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl. Fel y gwelir yn yr argymhelliad yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn mae angen gwell dealltwriaeth o'r cyd-destunau, y materion, yr heriau a'r cyfleoedd rhwng ac o fewn cymunedau a'r cyfleoedd arbennig mewn lleoedd arbennig i wella llesiant.

Hefyd, a chadw mewn golwg ymrwymiad Cymru i leihau allyriadau (o 80% o leiaf erbyn 2050) a ffocysu ar symud tuag at economi a chymdeithas garbon isel, ymddengys bod llawer o'r cyfleoedd a gynigir drwy ynni carbon isel lleol wedi eu colli. Mae angen i'r ymdrechion i leihau allyriadau, addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, bod yn ymwybodol a chyfrifol ar lefel fyd-eang ddigwydd ar lefel lleol ac mae'r asesiadau ar y cyfan wedi colli'r cyfle allweddol hwn.

# Rôl ein cartrefi yn ein llesiant

1.7

Mae'r adran hon yn amlinellu beth a ddywedir gan yr Asesiadau am dai a rôl ein cartrefi yn ein llesiant.



Delwedd o ymgysylltiad y Blaenau Gwent a Garem

# 10%

Os yr ydynt yn gorfod gwario mwy na 10% o incwm y cartref ar danwyd i gadw'u cartref mewn cyflwr 'boddhaol' yna ystyrir bod cartrefi mewn tlogi tanwydd.

Mae'r asesiadau ar y cyfan yn cynnwys llawer o wybodaeth am ddarpariaeth tai ac am gynorthwyo pobl ag arnynt angen tai yn cynnwys data a naratif am lefelau'r gofyn am dai newydd (mewn cymhariaeth â phoblogaeth) ac ystyriaeth o gyflogau cyfartalog o'u cymharu â phrisiau tai cyfartalog. Yn gyffredinol mae yna dueddiad tuag at gartrefi llai, gydag

angen arbennig am dai sy'n addas ar gyfer y nifer cynyddol o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau ar y cyfan yn ystyried sut mae angen i ddarpariaeth tai a rôl ein cartrefi yn ein llesiant newid ac addasu i anghenion y dyfodol, tu hwnt i dueddiadau poblogaeth.

# 13.8%

Nododd Asesiad Sir y Fflint mai'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dlodi tanwydd yw pensïynwyr yn byw ar eu pennau eu hunain a rhieni sengl, a bod pensïynwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn Sir y Fflint yn cyfrif am 13.8% o gartrefi a rhieni sengl yn cyfrif am 6.3% o gartrefi.

Mae'r adroddiad 'The Future of Housing and Home: scenarios for 2030' yn amlinellu heriau allweddol a senarios ar gyfer tai yn y dyfodol, yn cynnwys lefelau parhaus o dlodi, gwerthoedd sy'n newid, rhagfarnau rhanbarthol, newidiadau mewn sgiliau a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu a'r angen i dai addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.<sup>15</sup> Gallai materion arall i'w hystyried gynnwys y cyfle i groesawu agenda'r cartrefi clyfar (a dinasoedd) yn nhermau cynllunio cartrefi ar gyfer y dyfodol a allai fod ganddynt fuddiannau niferus yn nhermau effeithlonrwydd ynni, cysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus, gwell diogelwch a diogeledd.

Prin yw'r asesiadau sy'n gwneud y cysylltiad rhwng yr angen tebygol am fwy o dai i bersonau sengl a'r cynnydd mewn unigedd ac unigrwydd, gan annog y cwestiwn am y modd y dylai ein cymunedau a'n gwasanaethau gael eu dylunio mewn ffyrdd sy'n galluogi pobl i greu cysylltiadau hyd yn oed os ydynt yn byw ar eu pennau eu hunain.

Mae rhai o'r asesiadau'n rhoi sylwebaeth ddiddorol am y nifer o dai yn y sector tai cymdeithasol, am y modd y mae hyn yn adlewyrchu galw, ac effaith y gostyngiad mewn budd-daliadau tai. Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau'n cydnabod effaith y ddyletswydd i fynd i'r afael â digartrefedd ar awdurdodau lleol, y cynnydd arwyddocaol mewn gwaith achos sy'n ffocysu ar atal digartrefedd, a'r nifer o bobl sydd wedi cael eu harbed rhag dod yn ddigartref. Mae hon yn un o ychydig iawn o enghreifftiau o ddata sydd ar gael yn hawdd am y modd y mae problemau'n cael eu hatal rhag digwydd. Byddai hefyd yn ddiddorol petai BGCau yn dadansoddi'r data sy'n egluro pam mae pobl mewn perygl o ddod yn ddigartref (megis salwch meddwl neu berthynas yn chwalu) ac yn nodi a ydyw'r data hyn yn ei gwneud yn haws mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi digartrefedd. Petai'r ymagwedd wedi ei bwriadu i fod yn adlewyrchiad gwirioneddol o ddyheadau'r Ddeddf yn nhermau'r ffocws ar ataliad a'i bod yn cydnabod yn ei thro achosion cymhleth problemau megis digartrefedd yna dylai cysylltiadau â phroblemau megis Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod y cyfeiriwyd atynt mewn llawer o'r asesiadau, gael eu harchwilio ymhellach.

**“Mae'r datganiad 'byddaf yn medru dod o hyd i dŷ addas petai angen i mi symud' yn gofnod o'r hyder isaf o'r holl rai a ymatebodd, yn arbennig y rhai sy'n ennill llai nag £20,000 y flwyddyn.”**

Asesiad Llesiant Sir Benfro

Os yr ydynt yn gorfod gwario mwy na 10% o incwm y cartref ar danwydd i gadw'u cartref mewn cyflwr 'boddhaol' yna ystyrir bod cartrefi mewn tlodi tanwydd. Tynnir sylw at bwysigrwydd tlodi tanwydd gan rai o'r asesiadau, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag ardaloedd gwledig, sy'n amlygu data am lefelau tlodi tanwydd, y bobl sydd yn y perygl mwyaf o brofi tlodi tanwydd a biliau nwy a thrydan cyfartalog. Nododd Asesiad Sir y Fflint mai'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dlodi tanwydd yw pensiynwyr yn byw ar eu pennau eu hunain a rhieni sengl, a bod pensiynwyr sy'n byw ar eu pennau

eu hunain yn Sir y Fflint yn cyfrif am 13.8% o gartrefi a rhieni sengl yn cyfrif am 6.3% o gartrefi. Yn gyffredinol gosododd yr asesiadau sy'n crybwyll tlodi tanwydd yr wybodaeth yn bendant mewn adran llesiant 'economaidd' neu 'amgylcheddol' heb gydnabod bod y potensial i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn fodd o gyflwyno buddiannau niferus ar draws holl elfennau llesiant. Eto mae hyn yn esiampl o her arwyddocaol i FGCau wrth iddynt wneud cysylltiadau ar draws gwahanol feysydd llesiant a dangos bod eu cynllunio llesiant yn mabwysiadu ymagwedd integredig.

**“Dywed 11% o breswylwyr ei bod yn debygol y byddant yn gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartref neu brynu bwyd.”**

Asesiad Llesiant Powys

### Casgliadau

Amlinellodd yr asesiadau ddata am dai yn eu hardaloedd, gyda rhai'n rhoi manylion am broblemau sy'n wynebu cymunedau arbennig neu grwpiau o bobl. Mae tai hefyd yn un o'r prif faterion sy'n cael ei godi gan bobl drwy'r ymarferion ymgysylltu sydd wedi trwytho asesiadau .

Er bod yr asesiadau'n nodi'r tueddiadau tebygol mewn poblogaeth mewn perthynas â darpariaeth tai, mae yna gyfle clir i'r data a'r wybodaeth hyn gael eu gweld yng nghyd-destun tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod y manau lle rydym yn byw yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni

## 1.8

Mae'r adran hon yn egluro sut mae'r asesiadau'n mynd i'r afael â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni.

“Yn ychwanegol at sicrhau parhad yr iaith Gymraeg yn gyffredinol, mae dysgu a siarad Cymraeg yn bwysig i lesiant rhai plant, eu teuluoedd a'u cymunedau. Fodd bynnag, mae sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth i'r un graddau ag y caiff ei dysgu yn yr ysgol yn her arwyddocaol.”

Asesiad Llesiant Ceredigion

Mae'r asesiadau i gyd yn tanlinellu pwysigrwydd diwylliannol yr iaith Gymraeg, a'i rôl ar gyfer cynnal ein hunaniaeth genedlaethol, ac mae rhai yn nodi bod y gallu i'w defnyddio'n sgil werthfawr yn y gweithle. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r asesiadau a ystyriodd y Gymraeg fel ased ac mae'r mwyafrif yn ystyried yr iaith yn yr adran 'ddiwylliant' heb sylweddoli ei pherthnasedd i lesiant economaidd a chymdeithasol. Mae Ceredigion yn eithriad nodedig gan fod yr asesiad yn nodi bod gan lawer o bobl ifanc sy'n gadael yr ardal

y fantais o fod yn siarad dwy iaith ac yn gyflogeion deniadol mewn lleoedd lle mae nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gynhenid yn isel.

Mae data ar y cyfan yn cael eu rhoi ar nifer a chyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal, ac yn aml yn dadansoddi'r data ar sail ardaloedd cymunedol. Mae rhai asesiadau hefyd yn rhoi data ar broffil y rhai sy'n siarad Cymraeg, ble wnaeth pobl ddysgu'r Gymraeg a ble a pha mor aml y maent yn ei defnyddio.

Nid y data ar ddemograffeg siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yw'r unig dystiolaeth sy'n ein galluogi i ddeall ac asesu sefyllfa'r Gymraeg a'r rhai sy'n ei siarad. Mae pob un o'r asesiadau'n ystyried y Gymraeg mewn addysg ond i wahanol raddau; mae rhai asesiadau'n nodi nifer a chyfran y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach, dysgu yn y gweithle, addysg uwch a dysgu gydol oes. Nid roddir sylw ychwaith i faterion megis argaeledd staff addysgu dwyieithog neu argaeledd gofal plant yn y Gymraeg i gynorthwyo'r Gymraeg fel iaith sy'n cael ei siarad cyn neu y tu allan i addysg statudol.

Ni fydd y Gymraeg yn ffynnu os caiff ei chyfyngu i'r dosbarth ac mae llawer o'r asesiadau'n cydnabod adborth sy'n nodi bod y cyfleoedd i siarad Cymraeg yn brin, a bod angen hybu'r iaith Gymraeg yn y gweithle, hwyluso ei defnydd yn y gwasanaeth iechyd, yn arbennig ar gyfer pobl sy'n byw, er enghraifft, gyda dementia. Mae Asesiad Powys yn cydnabod pwysigrwydd hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y cyngor ac yn gymdeithasol gan fod y cyfleoedd i ddatblygu gyrfaedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol ar gyfer cadw staff sy'n siarad Cymraeg o fewn yr ardal.

Mae awdurdodau lleol yn awr o dan ddyletswydd statudol i gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth pum mlynedd sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach ohoni yn eu hardaloedd. Prin yw'r asesiadau sy'n cyfeirio at y ddyletswydd hon a sut fyddant yn cyflwyno gwasanaethau mewn dulliau sy'n cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

**“A chadw mewn golwg leoliad Sir Fynwy yng nghornel De Ddwyrain Cymru...mae yna ganfyddiad cyffredinol bod y defnydd o'r Gymraeg yno'n isel. Fodd bynnag Sir Fynwy oedd un o ddim ond 2 awdurdod lleol yng Nghymru i weld cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 o 9.7% i 9.9%. Ffactor o bwys yn y cynnydd hwn, gellir dyfalu, yw twf dwy ysgol cyfrwng Cymraeg.”**

Asesiad Llesiant Sir Fynwy

### Casgliadau

Tra'r oedd pob un o'r asesiadau'n cynnwys data a naratif am yr iaith Gymraeg, mae'n glir bod yna fwy o le ar gyfer ystyried ystod ehangach o ddata a mwy o ddehongli data ar wahanol lefelau.

**Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi darparu mewnbyn i'r adroddiad hwn. Yn ychwanegol at yr hyn a amlinellir uchod nododd ei swyddfa ddiffyg dehongliad beirniadol o'r data ar yr iaith Gymraeg, sy'n atgyfnerthu'r pwyntiau a wneir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn am yr angen am fwy o ddehongli data. Awgrymodd swyddfa'r Comisiynydd hefyd y gellid bod wedi cael mwy o ymgysylltiad â'r sefydliadau lleol oedd yn ffocysu ar yr iaith Gymraeg.**



# Pobl mewn gwaith gweddus yn gwella ffyniant cyffredinol

## 1.9

Mae'r adran hon yn egluro sut mae'r asesiadau'n cyflwyno gwybodaeth am ffyniant cyffredinol a darpariaeth gwaith gweddus.

“Mae dros hanner, **55.9%** o ymatebwyr, yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod gan bobl yng Nghaerdydd fynediad i gyfleoedd i'w helpu i wireddu eu potensial. Fodd bynnag...roedd lefelau'r rhai oedd yn cytuno â'r datganiad hwn yn gwahaniaethu o bron i **20%** rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardaloedd mwyaf cefnog y ddinas.”

Asesiad Llesiant Caerdydd

# 1%

The Equality and Human Rights Commission have highlighted that across Wales only 1% of jobs are filled by disabled people.

Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau'n defnyddio data eang am y nifer o swyddi llawn amser Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE) sydd ar gael, a rhai yn cymharu hyn yn erbyn y nifer o breswylwyr sy'n gweithio ac yn rhoi naratif diddorol am y rhesymau dros fod pobl yn cymudo allan o'u hardal i weithio. Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau hefyd yn rhoi data a naratif am enillion cyfartalog a'r mathau mwyaf cyffredin o swyddi. Thema allweddol yn deillio o ymgysylltiad BGCau â phobl yn eu hardaloedd yw'r angen am swyddi da sydd ar gael yn lleol, yn arbennig i alluogi pobl ifanc i aros yn y cymunedau lle cawsant eu magu.

Mewn rhai achosion mae gwybodaeth am swyddi ac enillion wedi ei fframio mewn cyd-destun sy'n rhoi mewnwelediad gwirioneddol i'r heriau sy'n wynebu ardaloedd arbennig. Er enghraifft mae Asesiad Powys yn egluro bod gan Bowys ar hyn o bryd y gyfradd uchaf o gyflogaeth yng Nghymru, ond nid yw hyn yn gwarantu ffyniant oherwydd bod yr incwm wythnosol cyfartalog yn isel ar £487 a 29% o bobl yn cael eu cyflogi ar sail rhan amser. Hefyd Powys yw'r chweched ardal awdurdod lleol ddrutaf yng Nghymru i brynu tŷ ynddo.

Mae pob un o'r asesiadau'n rhoi gwybodaeth ar lefelau diweithdra, gyda rhai'n dadansoddi gwybodaeth i ystyried gwahanol nodweddion pobl ddi-waith neu rai sy'n economaidd anweithredol, yn arbennig yn nhermau oedran ac anabled. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi amlygu mai dim ond 1% o swyddi sy'n cael eu llenwi gan bobl anabl yng Nghymru. Mae hyn ynghyd â'r gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl a gafodd ei amlygu gan rai asesiadau'n awgrymu ei fod yn fater a allai fod ag arno angen ystyriaeth bellach wrth ddatblygu cynllunio llesiant.

Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau hefyd yn rhoi manylion am incwm cyfartalog ac yn gosod hyn yng nghyd-destun ffordd o fyw a lefelau tlodi. Er enghraifft mae Asesiad Blaenau Gwent yn dweud bod 65% o breswylwyr yn ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol, sydd bron ddwywaith gymaint â chyfradd gyfartalog Cymru a theirgwaith gymaint â chyfradd gyfartalog y DU. Amlygir y mynediad i ofal plant fforddiadwy fel

rhwystr i rai pobl sy'n gweithio, gyda rhai asesiadau'n cynnwys data am niferoedd a mathau o leoliadau gofal plant ac ym mha gymunedau maent wedi eu lleoli. Un o'r heriau allweddol a nodir yn Adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach?' yw 'annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg mewn cyflogaeth.'<sup>16</sup> Tra'i bod yn galonogol i weld data ar gyflogaeth yn cael eu dadansoddi mewn perthynas â rhai o'r nodweddion gwarchoddedig mae yna le i roi mwy o ystyriaeth i grwpiau eraill yn cynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn gyffredinol nid yw'r asesiadau'n archwilio sut y gallai swyddi newid yn y dyfodol. Fodd bynnag mae'r rhan fwyaf ohonynt yn amlygu sectorau cyflogaeth allweddol ar gyfer yr ardal fel y maent ar hyn o bryd, ac yn trafod rôl y sector cyhoeddus o safbwynt darparu swyddi yn y dyfodol, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol.

**“Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn Sir Gaerfyrddin yn peri gofid gyda phersonau nad ydynt yn anabl bron ddwywaith mor debygol o fod mewn gwaith na'r rhai a ystyrir fel pobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010”.**

[Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin.](#)

**“Buaswn wrth fy modd i fynd yn ôl i'r gwaith ond fe fyddaf yn waeth fy mynd gan fod gennyf ddau o blant (nad ydynt yn mynd i'r ysgol).”**

Preswlydd Townhill – Asesiad Llesiant Abertawe

**“Mewn gwirionedd nid oes unrhyw swyddi gweithgynhyrchu [neu ychydig iawn] yng Nghasnewydd; mae'r rhan fwyaf wedi eu colli. Mae arnom hefyd angen llawer mwy o swyddi fel bancio ac yswiriant yng nghanol y ddinas gan mai siopau coffi sydd yno gan mwyaf...”**

Asesiad Llesiant Casnewydd

Yn gyffredinol nid yw'r adrannau o'r asesiadau sy'n ffocysu ar 'yr economi' yn adlewyrchu pob un o'r disgrifyddion a nodwyd yn y nod 'Cymru Ffyniannus';<sup>17</sup> yn wir mae rhai ohonynt yn nodi'n bendant mai dim ond cynnwys ffyniant yn ei ystyr economaidd a wneir yn eu hadrannau ar yr 'economy', sy'n gamddealltwriaeth o'r pwynt. Heb ddealltwriaeth o ble mae'r busnesau arloesol wedi eu lleoli a lle allent fod, cynhyrchiant economi lleol, a ph'un ai ydyw pobl yn eu hardal yn medru manteisio ai peidio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus, mae'r BGCau sy'n ffocysu ar ddiffiniad mwy traddodiadol o ffyniant yn debygol o golli cyfleoedd ar gyfer annog y math o dwf yn yr economi fel y

caiff ei diffinio yn y Ddeddf a byddant yn ei chael hi'n anodd dangos eu bod yn cwrdd â'u dyletswydd statudol i facsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant.

Tra bo rhai o'r asesiadau'n rhoi gwybodaeth ar gynhyrchu ynni adnewyddol ac effeithlonrwydd ynni, prin yw'r rhai sy'n cydnabod pwysigrwydd symud i economi carbon isel gan ystyried sut mae hyn yn cysylltu â thuaddiadau allweddol eraill. Er enghraifft mae Asesiad Wrecsam yn nodi lefelau buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni drwy gynlluniau megis Arbed Cartrefi Cynnes. Mae Asesiad Conwy a Sir Ddinbych yn amlygu pa mor bwysig ydy hi fod yr

ardal yn ymateb i dwf yn y sector ynni, yn arbennig wrth ymateb i'r cyfleuster pŵer niwclear newydd ar Ynys Môn. Mae'r agenda carbon isel hefyd yn mynd tu hwnt i gynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd ynni – ychydig o ystyriaeth a roddir, er enghraifft, i'r buddsoddiad sydd ei angen mewn trafndiaeth garbon isel a thai.

“...mae newidiadau'n debygol o arwain at set fwy amrywiol o gyflogwyr yn gweithredu yn y sector [iechyd a gofal cymdeithasol] ac ymagwedd fwy cydgysylltiedig tuag at ddarpariaeth gwasanaethau gan staff. Mae swyddi sydd eisoes yn bodoli'n debygol o ehangu tu hwnt i'w paramedrau presennol, ac mae rolau newydd yn debygol o ddod i'r amlwg a fydd yn llenwi'r bylchau rhwng y proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol. Ni ellir tanddatgan y potensial ar gyfer twf economaidd yn y sector hwn.”

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

### Casgliadau

Un o brif argymhellion yr adroddiad hwn yw bod angen i FGCau alluogi sgwrs ddyfnach am ystyr llesiant ar lefel leol yn hytrach nag adlewyrchu syniadau traddodiadol a dulliau traddodiadol o wneud pethau. Ymddengys mai adrannau 'economaidd' yr asesiad yw'r rhai sydd fwyaf problematig yn hyn o beth ac sy'n adlewyrchu safbwyntiau traddodiadol i raddau helaethach ac mae angen i FGCau gymryd rhan mewn sgwrsiau llawer ehangach am y modd y gall gwasanaethau alluogi dyfodol ffyniannus, carbon isel.

**Amlygodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn briodol, y diffyg cyffredinol mewn cyfeiriadau at neu ddealltwriaeth o gyfleoedd posibl i symud i economi mwy cylchol neu wyrdd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys marchnadoedd a swyddi newydd a gwahanol, a rôl gynyddol effeithlonrwydd adnoddau yn y broses o leihau costau hirdymor.**

<sup>17</sup> Cymru Lewyrchus: Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

# Sut mae pobl yn ymgysylltu mewn cymunedau a'r hyn a feddyliant

## 1.10

Mae'r adran hon yn nodi sut mae'r asesiadau'n dangos y modd y maent wedi ymgysylltu â chymunedau.



Delwedd o ymgysylltiad y Blaenau Gwent a Garem

Mae datblygu'r asesiadau wedi galluogi pob un o'r BGCau i ymgysylltu â phobl leol a'u cymunedau, gan gasglu safbwyntiau cyffredinol am eu syniad hwy am yr hyn ydyw llesiant, yr hyn oedd yn bwysig iddynt hwy ar y pryd a'r hyn a fydd o bwys iddynt yn y dyfodol. Tra bo rhai asesiadau'n asesu i ba raddau mae pobl yn teimlo'u bod yn rhan o'r broses, yn gyffredinol nid oes llawer o ystyriaeth i ba raddau y mae pobl yn teimlo'u bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir yn lleol.

Gall diwylliant o fewn cymuned fod yn rhywbeth lleol iawn, yn dibynnu ar y dref, y bobl sy'n byw yno heddiw, y gweithgareddau sy'n digwydd yno a'i photensial ar gyfer y dyfodol... roedd pobl nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau lleol, ac â'r bobl o'u cwmpas neu hanes yr ardal yn ymddangos yn unig a negyddol ynglŷn â'r dyfodol.

[Asesiad Llesiant Cwm Taf](#)

# 25%

Er enghraifft, mae gan Gaerdydd un o'r ffigurau uchaf yng Nghymru gydag ychydig o dan 25% yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau.

Mae llawer o'r asesiadau'n defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru am y ganran o bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Er enghraifft mae gan Gaerdydd un o'r ffigurau uchaf yng Nghymru gydag ychydig yn is na 25% o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau. Mesur arall cyffredin a ddefnyddiwyd yw'r nifer o bobl sy'n pleidleisio, gyda rhai asesiadau'n rhoi data ar y gwahaniaethau rhwng y ganran a bleidleisiodd mewn gwahanol gymunedau.

**Cwestiwn:** Ydych chi'n meddwl fod pobl yn gwranddo arnoch ac yn deall beth yr ydych ei eisiau?

**“Rwy'n credu fod pobl yn gwranddo a deall ond nid ydynt eto'n deall pam rwyf eisiau'r hyn rwyf eisiau ac felly does dim byd yn digwydd.”**

**“Na oherwydd fy mod i'n ifanc ac yn fach – nid yw pobl yn fy ngweld ac nid wyf yn boblogaidd”.**

Allbwn ymgysylltiad o Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful, Asesiad Llesiant Cwm Taf


Mae rhai o'r asesiadau wedi ffocysu ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, drwy fforymau ieuenctid, gweithdai ysgol a gweithdai gyda grwpiau arbennig o bobl megis pobl ifanc sy'n ddigartref neu sy'n ofalwyr. Mae rhai asesiadau'n gwneud defnydd effeithiol o Arolwg Chwaraeon Ysgol, er enghraifft yng Nghastell Nedd Port Talbot mae plant naw gwaith yn fwy tebygol o fwynhau addysg ymarfer corff 'yn fawr iawn' os gwrandewir bob amser ar eu syniadau am chwaraeon yn yr ysgol, a'r ddarpariaeth yn cael ei siapio i gwrdd â'u hanghenion.

## “Cael cynrychiolwyr da sydd mewn gwirionedd yn gwranddo ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i'w ddweud.”

Ymgysylltiad â phobl ifanc, Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin



Delwedd o brosiect ysgolion Ceredigion



Delwedd o brosiect ysgolion Ceredigion

'Mae 'Beth nesa?', adroddiad diweddar Comisiynydd Plant Cymru'n cynnwys canfyddiadau bod profiad plant a phobl ifanc o gyfrannu yn y broses benderfynu yn yr ardal leol yn llai cadarnhaol (na'u cyfraniad mewn ysgolion) gyda dim ond lleiafrif yn dweud bod rhywun wedi ymgynghori â hwynt am y penderfyniadau neu'n meddwl bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr.<sup>18</sup> Mae'n glir o'r asesiadau sydd wedi amlygu mewnbyn oddi wrth blant a phobl ifanc eu bod yn gwerthfawrogi cael gwrandawriad i'w barn a chael effaith ar benderfyniadau a wneir yn lleol a fydd yn effeithio ar eu dyfodol. Hoffwn weld y BGCau yn adeiladu ar eu hymgysylltiad fel rhan o asesiadau llesiant drwy archwilio a ydyw ymgysylltu â phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus, a dylai hyn gael ei archwilio wrth gynllunio llesiant.

Crybwyllir pwysigrwydd gwirfoddoli yn y mwyafrif o'r asesiadau, yn arbennig mewn perthynas â llesiant diwylliannol a chymdeithasol, ac mae'n cael ei weld yn glir fel ffordd bwysig i bobl greu cysylltiadau rhyngddynt â'u cymunedau. Cynhwysir data ar y nifer o wirfoddolwyr ffurfiol ac anffurfiol, ac mae rhai asesiadau'n trafod lefelau ymwybyddiaeth o, a mynediad i wirfoddoli. Trafodir rôl ymgysylltu â'r celfyddydau yn y rhan fwyaf o'r asesiadau, gyda llawer yn amlygu diffyg data hygyrch am sut y gellir ymgyfrannu yn y celfyddydau ac am eu budd i lesiant.

Mae'r trydydd sector wedi chwarae rhan o ryw fath yn y rhan fwyaf o'r asesiadau, er bod hyn yn amrywio'n fawr ar draws Cymru. Enghraifft o drydydd sector yn cael mewnbyn gweithredol mewn asesiad yw yng Nghwm Taf, lle gwnaeth Interlink goladu'r holl wybodaeth yr oedd wedi ei gasglu drwy sgysiau, rhwydweithiau, gweithdai a digwyddiadau mewn un ddogfen sy'n egluro materion allweddol oedd yn cael eu profi gan ddinasyddion a chymunedau. Fodd bynnag, Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n enghraifft o gyfle a gollwyd mewn llawer ardal yn nhermau'r trydydd sector – mae ganddynt gryn dipyn o ddata am dueddiadau'n ymwenedu â materion sy'n rhoi'r straen mwyaf ar bobl, yn cynnwys tai, dyled a chipolwg ar effaith tebygol cyflwyno'r credyd cynhwysol yn y dyfodol yn ei gyfarwydd.

**“Mae angen i ni ailddarganfod ein dyhead ar gyfer ein cymunedau – cymunedau glofaol tlawd – mae brwdfrydedd dros addysg ac ysbryd cymunedol wedi mynd i golli. Mae angen i ysgolion alluogi pobl ifanc unwaith eto i edrych tuag at yr hyn y gallant ei gyflawni.”**  
Ymgysylltiad drwy ddigwyddiad senarios y dyfodol. Asesiad Llesiant Caerffili

### Casgliadau


Mae ymgysylltu ac ymgyfrannu yn amlwg yn faes lle mae BGCau wedi ffocysu ymdrech sylweddol, ac mewn rhai achosion wedi gwneud ymdrech fawr i ddeall sut mae pobl leol, yn cynnwys pobl ifanc, yn teimlo am lesiant a dyfodol eu cymunedau. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ddarlun cyflawn. Mae yna gyfle i adeiladu ar hyn drwy gynllunio llesiant, drwy alluogi sgwrsio dyfnach am yr hyn a ddylai ddigwydd mewn gwahanol ardaloedd a sut i fynd i'r afael â'r tensiynau a allai hyn eu greu. Mae angen hefyd i FGCau ddeall yn well

y ffordd mae pobl yn byw eu bywydau ac ystyried dulliau mwy arloesol o ennyn ymgyfraniad pobl. Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn cyflwyno argymhellion am ymgyfraniad yn cynnwys yr angen i sicrhau bod aelodau a wahoddwyd yn ymgysylltu'n drwyadl ac effeithiol â'u sectorau, ac yn defnyddio gwybodaeth o sefydliadau partneriaid er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau bywyd pobl a'r angen i adeiladu ar y gwaith ymgyfrannu a wnaed hyd yn hyn, a chydweithio'n fwy effeithiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar ymgyfrannu.

<sup>18</sup> 'Beth nesa?' Y canfyddiadau, Comisiynydd Plant Cymru, 2016

# Pa mor ddiogel ydyw pobl a pha mor ddiogel y maent yn teimlo 1.11

Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth yn yr asesiadau sy'n berthnasol i drosedd a diogelwch cymunedol.



Delwedd o'r ymgysylltiad y Blaenau Gwent a Garem

## 32

Ar lefel cenedlaethol seiberdroseddu oedd un o'r 32 trosedd fwyaf cyffredin yn 2016.

Mae pob un o'r asesiadau'n cynnwys data a naratif am drosedd a diogelwch cymunedol, ac mae'r rhain yn amrywio o fod wedi ffocysu ar syniadau traddodiadol am drosedd a diogelwch i'r rhai hynny sy'n rhoi peth sylwi'r modd y mae trosedd yn newid a'r heriau ar gyfer y dyfodol. Mae llawer yn cynnwys data ar lefelau a mathau o drosedd yn ôl cymunedau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanfyddiadau o ddiogelwch cymunedol.

# 75%

**Teimlai 75% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg Holi Caerdydd 2016 bod Caerdydd yn ddinas ddiogel...mae preswylwyr Dwyrain Caerdydd a phobl anabl ymhlith y rhai sydd leiaf tebygol o gredu bod Caerdydd yn ddinas ddiogel (65% a 58.9%, yn y drefn honno, sy'n cytuno ei bod)**

Asesiad Llesiant Caerdydd

Mae llawer o'r asesiadau'n defnyddio arolygon am ganfyddiadau o ddiogelwch, a dylid talu sylw i ba raddau y gellir dibynnu ar y data o'r arolygon hyn, gan fod perygl i arolygon sy'n seiliedig ar ganfyddiadau roi blaenoriaeth i'r materion mwyaf amlwg gan guddio ystod o faterion gwaelodol, a mwy difrifol. Er enghraifft roedd y dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Materion Cartref y DU am blismona yn cynnwys yr awgrym bod yna duedd mewn adroddiadau seiliedig ar ganfyddiadau tuag a y 'bobl ofnus diogel' neu rai sy'n byw mewn mannau cymharol ffyniannus lle mae lefelau cymharol isel o droseddau a gofnodir yn cael eu profi.<sup>19</sup>

Mae gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol yn cael ei gynnwys yn llawer o'r asesiadau. Ymddengys llawer o'r asesiadau bod camdrin domestig wedi cynyddu (er enghraifft o 19% yn Sir Fynwy ac o 18% ym Mlaenau Gwent). Fodd bynnag mae llawer o asesiadau'n nodi mai ffactor tebygol yn hyn o beth yw'r cynnydd mewn adrodd a gwelliant mewn cofnodi digwyddiadau.

Os ydy hyn yn wir prin iawn yw'r asesiadau a wnaeth gysylltiad rhwng y data ar y math hwn o drosedd â'r cyflwr o fod yn agored i niwed. A chadw mewn golwg bod mwy a mwy o alw am blismona sy'n ffocysu ar rai sy'n agored i niwed, disgwyliad y byddai mwy o deimlad o integreiddio wrth gydnabod y cysylltiadau â meysydd eraill a ystyrid gan yr asesiadau – profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, iechyd meddwl a thlodi .

Mae rhai o'r asesiadau'n cynnwys data defnyddiol sy'n rhoi cipolwg i ni o'r modd y mae troseddau'n newid a rhai heriau ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft mae rhai o'r asesiadau o ardaloedd Gwent yn cyflwyno data am y cynnydd mewn seiberdrosedd gyda seiberfwlio ac aflonyddu fel y tueddiad mwyaf amlwg, i'w ddilyn gan seiberdwyll a seiberecsbloetio ac, mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno hyfforddiant ychwanegol i swyddogion mewn cysylltiad â seiberdrosedd, sy'n cwmpasu pob math o drosedd sy'n gysylltiedig â'r rhyngwyd.

**“...dengys ffigurau a ryddhawyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu bod nifer o ddigwyddiadau [troseddau casineb] yn y DU wedi codi o 58% yn yr wythnos yn dilyn y bleidlais i adael yr UE. Er bod y ffugurau cenedlaethol ers hynny wedi gostwng, mae agweddau'r cyhoedd ac ymddygiadau yn dilyn refferendwm yr UE wedi amlygu disgwrs yn arbennig mewn cysylltiad â hil/ffydd...”**

Asesiad Llesiant Wreccsam



Mae llawer o'r asesiadau'n cynnwys data ar droseddu, gan ddangos ei fod ar gynnydd, a phleidlais refferendwm yr UE yn cael ei hystyried fel ffactor a gyfrannodd at hyn. Mae ymchwil a wnaed gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu bod aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd ac sydd heb fod yn cael ei adrodd i'r awdurdodau lleol yn sylweddol, a gall bod hyn yn awgrymu diffyg cydnabyddiaeth o bartneriaid yn y rôl y dylent fod yn ei chwarae drwy annog adrodd am aflonyddu.<sup>20</sup>

Cynhwysir gwybodaeth am y rhai sy'n cyflawni troseddau (yn ogystal ag am y dioddefwyr) mewn rhai o'r Asesiadau, gyda data'n cael ei roi ar gyfraddau ail-droseddu Caiff gwybodaeth am y rhai sy'n cyflawni troseddau (yn ogystal â'r dioddefwyr) ei gynnwys yn rhai o'r Asesiadau gyda data wedi ei roi ar gyfraddau ail-droseddu a lefel y newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuencid. Yn gyffredinol mae ystyriaeth o anghenion y rhai sy'n cyflawni troseddau yn fwll yn yr asesiadau, er bod Blaenau Gwent yn dangos anghenion troseddwr yn yr ardal leol ac yn egluro sut yr eir i'r afael â'r rhain.

**“Mae gan Geredigion y lefel isaf yn y DU o newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuencid. Mae'r nifer o newydd-ddyfodiaid ar draws y DU wedi bod yn gostwng yn gyson ers 2005, a hyn, mae'n debyg, oherwydd y cynnydd mewn cymorth i deuluoedd a phobl ifanc ar ffurf ymyriadau ataliol a chynnar.”**

Asesiad Llesiant Ceredigion

**“Mae ffigurau diweddaraf o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai seiberdroseddau oedd un o'r 32 trosedd fwyaf cyffredin yn 2016, ac amcangyfrir bod 2 filiwn o ddigwyddiadau, o'i gymharu â 686,000 o droseddau o fyrgheriaeth ddomestig.”**

Asesiad Llesiant Sir Fynwy

### Casgliadau

Tra bo'r asesiadau'n rhoi rhan o'r darlun o ddiogelwch cymunedau, mae angen i gynllunio llesiant adeiladu ar hyn i sicrhau bod y materion mwyaf arwyddocaol ar gyfer llesiant yn cael eu deall, er y gallai'r materion hyn fod yn rhai nad ydynt yn cael eu cydnabod yn eang, eu deall na'u crybwyll.

**Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ddeall yr achosion a'r ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu ac aildroseddu o fewn yr ardal leol, yn ogystal â'r ffactorau amddiffynnol a allai helpu i leihau risg unigolyn o ail-droseddu ac/neu wneud niwed. Mae gan unigolion sy'n ymgyfrannu yn y system cyfiawnder troseddol yn aml iawn nifer o anghenion cymhleth a rhyng-gysylltiedig a fedr fod yn gysylltiedig â ffactorau megis addysg/hyfforddiant/cyflogadwyedd, iechyd (corfforol a meddyliol), tai, a'r defnydd o gyffuriau/alcohol, ymhlith eraill. Dylai ystyried anghenion y bobl leol sy'n troseddu a llwybrau allan o droseddu, helpu BGCau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a chydbwysu gofynion y gwasanaeth yn**

**y tymor byr a'r hirdymor, tra hefyd yn helpu i leihau'r risg o aildroseddu, lleihau'r nifer o ddioddefwyr yn y dyfodol a'r gost berthnasol i'r trethdalwr yn deillio o ymgyfraniad pellach yn y system cyfiawnder troseddol.**

**Oedd Cymorth i Fenywod Caerdydd yn disgwyl gweld trais yn erbyn menywod yn cael mwy o amlygrwydd, yn arbennig yn yr adrannau yn yr asesiadau ar iechyd a llesiant a diogelwch cymunedol, ac yn teimlo'n siomedig mai ychydig o dystiolaeth a rhoddwyd am anghenion dioddefwyr o gymunedau ethnig pobl Dduon a Lleiafrifoedd neu adnabyddiaeth o anghydraddoldeb rhywedd fel achos a chanlyniad trais yn erbyn menywod. Gall BGCau ddarparu arweinyddiaeth ar atal trais yn erbyn menywod drwy gydweithio'n well gyda gwasanaethau arbenigol y trydydd sector sy'n darparu cymorth mewn materion a diwylliant rhywedd a thrwy weithio gyda ni i greu ymateb mwy cydnerth ac effeithiol yn y gymuned ac mewn asiantaethau a gwireddu 'newid sy'n parhau.'**

<sup>20</sup> 'Out in the Open: tackling disability-related harassment', Equality and Human Rights Commission, 2016

# Ein poblogaeth sy'n newid, a'r angen i ni heneiddio'n dda

## 1.12

Mae'r adran hon yn nodi sut mae'r Asesiadau'n mynd i'r afael â thueddiadau allweddol yn y boblogaeth, ac yn arbennig ein poblogaeth sy'n heneiddio.

“Rydym yn caru dysgu a mynychu dosbarthiadau yn ein canolfan ieuenctid a chymunedol ond mae'r cyllid wedi ei dorri ac mae'n hollbwysig bod pobl sydd wedi ymddeol/pobl hŷn yn medru dysgu er mwyn iddynt beidio bod yn faich ar y gwasanaethau cyhoeddus.”

Preswlydd yn Abergafenni 62 mlwydd oed – Asesiad Llesiant Sir Fynwy

# 40%

Ar lefel y DU, rhagwelir y bydd y nifer o bobl 65 mlwydd oed a hŷn yn cynyddu o 40% yn ystod yr 17 mlynedd nesaf.

Mae pob un o'r Asesiadau'n nodi tueddiadau uchel yn ein poblogaeth a fydd yn cyflwyno heriau i wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Y tueddiadau allweddol a nodwyd yw:

- Ein poblogaeth sy'n heneiddio
- Bylchau lleol arwyddocaol mewn disgwyliad oes iach
- Lefelau o unigrwydd ac unigedd
- Pobl ifanc yn mudo o ardaloedd gwledig

Ar lefel y DU, rhagwelir y bydd y nifer o bobl 65 mlwydd oed a hŷn yn cynyddu o 40% yn ystod yr 17 mlynedd nesaf.<sup>21</sup> Mae pob un o'r asesiadau'n rhagweld cynnydd arwyddocaol mewn pobl dros 65 mlwydd oed a dros 80 mlwydd oed

yn eu hardaloedd. Er enghraifft yng Ngwynedd disgwylir y bydd cynnydd o 60% mewn pobl dros 80 mlwydd oed yn yr ardal ymhen 20 mlynedd. Yn gyffredinol mae'r asesiadau'n rhoi gwybodaeth am y lefelau o ddementia a ragwelir, er bod gwahanol agweddau'n cael eu mabwysiadu tuag at hyn. Yn Sir y Fflint rhagwelir y bydd y nifer o bobl â dementia'n cynyddu o 66% erbyn 2030, un o'r rhagolygon uchaf ar draws Cymru. Mae asesiadau Sir y Fflint yn nodi tra bo cynnydd mewn pobl â dementia ar draws y byd, bod yna rai heriau sy'n benodol i Gymru yn cynnwys yr effaith ar ein cymunedau gwledig a'r angen i bobl fedru defnyddio ei dewis iaith.

<sup>21</sup> 'Later life in the United Kingdom', Age UK, 2017

# 30%

Er enghraifft yn Sir Ddinbych mae dros 11,600 o bobl yn darparu gofal di-dâl a bron i 30% ohonynt yn darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos.

Mae pob un o'r asesiadau'n cynnwys gwybodaeth am ofalwyr di-dâl, yn cynnwys data ar niferoedd a phroffiliau gofalwyr, cymarebau dibyniaeth ac effaith y rôl gofalu ar iechyd corfforol a meddyliol a llesiant gofalwyr. Er enghraifft yn Sir Ddinbych mae dros 11,600 o bobl yn darparu gofal di-dâl a bron i 30% ohonynt yn darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos.

Yn gyffredinol mae'r asesiadau'n portreadu'r boblogaeth sy'n heneiddio fel problem i'w datrys, gan ffocysu ar yr heriau i'r system iechyd a'r system gofal iechyd. Tra gallai lefel yr her fod yn arwyddocaol mae hwn yn gyfle sydd wedi ei golli i gydnabod bod y doethineb, y profiad a'r amser y gall pobl hŷn eu cyfrannu fod yn ased i gymunedau. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi datgan yn glir bod angen i gyrff cyhoeddus feddwl am y modd y mae eu gwasanaethau'n galluogi datblygiad cymunedau sy'n galluogi ac yn rhoi'r grym i bobl hŷn gyfrannu a chyfranogi, gan alluogi canlyniadau cadarnhaol, ataliol sy'n helpu i gynnal eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u llesiant.

**“Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn disodli ffrindiau weithiau; gall y bydd gan rywun dros 1000 o ffrindiau ond sawl un ohonynt maent wedi eu cyfarfod mewn bywyd go iawn?”**

Disgybl ysgol uwchradd – Aseiad Llesiant Abertawe

**“Mewn cymunedau sy'n oed-gyfeillgar, gall pobl o bob oed gymryd rhan mewn gweithgareddau; mae'n hawdd i bobl gynnal cysylltiadau, barhau gyda bywyd gweithgar ac iach yn hwyrach yn eu bywyd, ac mae gofal priodol ar gael i'r rhai hynny sydd ei angen. Mae cymunedau oed-gyfeillgar wedi eu hadeiladu o gwmpas cartrefi a chymunedau addas, wedi eu dylunio i annog gweithgaredd corfforol, i fod yn ddiogel a dwyn pobl o bob oed at ei gilydd.”**

Aseiad Llesiant Ceredigion

Tueddiad arall allweddol yn y boblogaeth a gynhwysir ym mhob un o'r asesiadau yw'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r rhai lleiaf difreintiedig. Mae disgwyliad oes iach yn golygu faint o flynyddoedd y bydd pobl yn byw mewn cyflwr iach (mae hyn yn wahanol i ddisgwyliad oes sy'n ystyried yr oll o fywyd rhywun). Mae data ar draws pob un o'r asesiadau'n dangos bod pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn debygol o fwynhau nifer llai o flynyddoedd o iechyd da, ac am gyfran lai o'u bywydau. Mae gan Fro Morgannwg un o'r bylchau mwyaf yng Nghymru, gyda menywod o leoedd llai difreintiedig yn byw 23.5 yn fwy o flynyddoedd iach na menyw mewn lleoedd mwy difreintiedig, gyda dynion yn byw 20.9 yn fwy o flynyddoedd iach.

Cafodd effaith unigrwydd ac unigedd ei amlygu fel thema'n ymwneud â phoblogaeth allweddol mewn llawer o'r asesiadau er ei bod yn bwysig nodi nad ydynt yr un fath. Mae'n glir eu bod yn broblemau sy'n effeithio ar bob rhan o'n cymdeithas a'n cymunedau yn arbennig am fod ein ffordd o fyw, o gymdeithasu a chysylltu â chymunedau'n newid yn gyflym.

Tueddiad allweddol a nodwyd mewn ardaloedd gwledig oedd hwnnw'n ymwneud â'r gostyngiad yng nghyfraddau genedigaethau a'r tebygrwydd y byddai hyn yn parhau ac effeithiau nifer llai o bobl ifanc mewn cymunedau a'r cynnydd mewn symudedd ymhlith pobl ifanc. Archwiliodd rhai asesiadau'r rhesymau am hyn, gyda diffyg mynediad i gyfleoedd, swyddi a seilwaith yn rhan allweddol o'r darlun.

“Mae 10.1% yn llai o blant o dan 16 mlwydd oed yng Ngwynedd nag yr oedd 30 mlynedd yn ôl...mae rhai ardaloedd wedi gweld gostyngiad llawer mwy mewn niferoedd – er enghraifft ym Mlaenau Ffestiniog mae yna 25.3% yn llai o blant o dan 16 mlwydd oed nag yr oedd yno 30 mlynedd yn ôl.”

Aseiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

## Casgliadau

Cyfeiriodd pob un o'r asesiadau at dueddiadau allweddol yn y boblogaeth a chydabu'r rhan fwyaf eu pwysigrwydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol, yn arbennig yn eu cydnabyddiaeth o'n poblogaeth sy'n heneiddio. Fel yr amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, mae llawer o'r tueddiadau'n cyflwyno her arwyddocaol yn ogystal â rhai cyfleoedd, a dylai hyn sbarduno trafodaeth onest sy'n gofyn

a oes angen ymagweddau newydd i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg. Mae yna le ar gyfer rhoi mwy o ystyriaeth i'r rhyng-gysylltiadau rhwng tueddiadau'r boblogaeth â phenderfyniadau polisi ehangach – er enghraifft rhaid i'r modd y mae cymunedau'n cael eu dylunio geisio mynd i'r afael â'r duedd tuag at fwy o unigedd ac unigrwydd a cheisio'i newid.

# Effeithiau byd-eang yr hyn a wneir gennym

## 1.13

Mae'r adran hon yn egluro sut mae'r asesiadau wedi ystyried effeithiau byd-eang ein cymunedau.

“Pan ofynnwyd i rai rhwng 16-24 mlwydd oed am eu blaenoriaethau ar gyfer llesiant yn y dyfodol y tri uchaf oedd ‘lleihau'r newid yn yr hinsawdd’ (68%), ‘bodlonrwydd swydd’ (60%) a ‘cael digon o arian’ (56%). Diddorol nodi mai'r ffactor lleiaf pwysig yn y presennol a ystyrir fel y pwysicaf yn y dyfodol!”

Asesiad Llesiant Ceredigion

Pwrpas y nod ‘Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang’ yw cydnabod y gall yr hyn a wnawn ni yng Nghymru, yn ein byd rhyng-gysylltiedig, gael effaith cadarnhaol a niweidiol tu allan i Gymru. Roedd hwn yn faes gwan mewn llawer o'r asesiadau, gyda dim ond ychydig o sylw, ar y cyfan, yn cael ei roi i effeithiau byd-eang yr hyn a wnawn yn lleol, yn awr ac yn yr hirdymor. Mae'r asesiadau wedi colli'r cyfle i ddangos sut y gall polisiau a gwariant leihau effeithiau negyddol o fewn cadwyni cyflenwi, lleihau allyriadau carbon a chynorthwyo'r newid i economi carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Crybwyllwyd y newid yn yr hinsawdd ym mhob un o'r asesiadau, gyda data a naratif am ôl-troed carbon awdurdodau lleol, fesul un; sut mae hyn yn newid dros amser a phwysigrwydd y mater i bobl. Archwiliodd rhai asesiadau ffynhonnell allyriadau mewn peth manylder – er enghraifft yn Wrecsam roedd gostyngiad o 10% mewn allyriadau stoc tai rhwng 2014-16. Gwyddys yn gyffredinol bod gennym fel cenedl ddyletswydd gyfreithiol i leihau ein hallyriadau o 80% o leiaf erbyn y flwyddyn 2050, ond prin oedd yr asesiadau a gydnabu hyn neu a wnaeth gysylltiad â'r modd y mae angen i ddarpariaeth gwasanaethau newid er

mwyn cwrdd â'r targed uchelgeisiol hwn. Cafodd cyfleoedd eraill i leihau allyriadau carbon a symud tuag at adeiladau carbon niwtral eu hanwybyddu'n gyfangwbl. Nid oedd cyfeiriad at ficro-gynhyrchu drwy wres yr haul, gwynt a gwresogi-ardal, nac ychwaith at yr ymdrechion i gynyddu effeithlonrwydd eiddo cyhoeddus neu fusnesau â chontractau cyhoeddus.

# 80%

Gwyddys yn gyffredinol bod gennym fel cenedl ddyletswydd gyfreithiol i leihau ein hallyriadau o 80% o leiaf erbyn y flwyddyn 2050.

Crybwyllwyd effeithiau byd-eang eraill mewn rhai asesiadau, ond heb lawer o amlygrwydd. Crybwyllwyd gwastraff a chyfraddau ailgylchu'n aml fel materion byd-eang; fodd bynnag ychydig o dystiolaeth a gafwyd o ffocysu ar leihau gwastraff. Maes allweddol lle gall cyrff cyhoeddus gael effaith (cadarnhaol neu niweidiol) ar lefel byd-eang yw drwy gaffael cynnyrch a gwasanaethau – prin y cafodd hyn ei grybwyll. Roedd rhai o'r asesiadau'n cynnwys eu Hôl-troed Ecolegol fel ffordd o ddangos gorddefnydd o adnoddau.

Cafwyd peth trafodaeth ar yr angen am fwy o addysg am, ac ymgysylltiad â'n heffaith byd-eang. Byddai mapio cysylltiadau â'r trydydd sector wedi bod yn ddefnyddiol i FGCau ar gyfer ystyried. Er enghraifft: ysgolion ac elusennau'n cyd-gefnogi cynnwys maes llafur mewn addysg am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth byd-eang (ESGDC); neu adlewyrchiad o gysylltiadau gwirfoddoli byd-eang rhwng byrddau iechyd ac ysbytai yn Affrica; neu leoliadau yn Affrica gyda'r rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol Llywodraeth Cymru; neu efeillio gyda gwledydd Ewropeaidd.

Rhoddodd rhai asesiadau beth ystyriaeth i dueddiadau byd-eang a allai gael effaith ar gymunedau, yn cynnwys y potensial ar gyfer lledaeniad cyflym clefydau heintus mewn byd sy'n tyfu'n fwyfwy cyd-ddibynnol, ac effaith nifer cynyddol o ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Gellid bod wedi rhoi manylion am y nifer o bobl sydd wedi cael eu haisefydlu'n lleol drwy gyfrwng gwahanol gynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid Llywodraeth y DU fel modd o amlygu'r ymateb i argyfwng dadleoli byd-eang.

## Casgliadau

Mae cydnabod effaith byd-eang Cymru'n rhan allweddol o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n gyfle a gollwyd gan y mwyafrif o'r asesiadau.

**Mae'r Gynghrair Datblygu Cynaliadwy wedi darparu mewnbyn i'r adroddiad hwn. Awgryma Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (aelod o'r Gynghrair) mai'r maes allweddol lle gall cyrff cyhoeddus gael effaith (cadarnhaol neu niweidiol) ar lefel leol yw drwy gaffael cynnyrch a gwasanaethau – prin y cafodd hyn ei grybwyll yn yr Asesiadau. Fel Cenedl Masnach Deg, gwyddom drwy anecdotau bod llawer o awdurdodau yng Nghymru'n prynu te, coffi, siwgwr, bananas, reis a chotwm drwy'r Fasnach Deg; fodd bynnag ni chafodd hyn ei gynnwys. Hefyd, gwyddom bod rhai yn caffael pysgod ardstyedig Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC), pren a chynnyrch papur ardstyedig Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) tra bo eraill yn defnyddio olew palmwydd yn eu hoffer ffrio, neu'n annog cyflenwyr i leihau eu hallyriadau carbon mewn cerbydau fflyd drwy ddefnyddio olew coginio wedi ei ailgylchu.**

# Yr Aseidiadau Llesiant cyntaf – gwersi allweddol ar gyfer cynllunio llesiant

# Rhan 2

## Gosod y cyd-destun

Yn Nhachwedd 2016 datblygodd fy swyddfa bartneriaeth gyda Dr Alan Netherwood o Netherwood Sustainable Futures, Dr Andrew Flynn o Brifysgol Caerdydd a Dr Mark Lang o Mark Lang Consulting (“y tîm ymchwil”) i adolygu pob un o’r 19 Aseiad Llesiant (“aseidiadau”) sy’n cael eu cynhyrchu gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bwriad yr adolygiad hwn oedd galluogi’r Swyddfa i ddarparu cyngor pwrpasol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a thimau sy’n datblygu’r aseidiadau am sut y gallant gael eu gwella, a sut y gallent adeiladu ar eu gwaith hyd yn hyn i alluogi cynllunio llesiant effeithiol yn unol â dyheadau’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn amlinellu’r meini prawf adolygu a ddatblygwyd gan y tîm, a drwythodd fy adborth unigol i bob BGC a chanfyddiadau ehangach a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Mae’r adran ganlynol yn manteisio ar y gwaith hwn, ac yn darparu crynodeb o’r negeseuon allweddol sy’n ymddangos o ddadansoddiad y tîm ymchwil, y cwestiynau allweddol sy’n cael eu codi ganddo ar gyfer cynllunio llesiant a pheth o’r data a’r rhai o’r modelau sydd wedi eu defnyddio i ddeall gweithgaredd BGCau a chyrff eraill ledled Cymru. Rydym hefyd wedi defnyddio’r rhain i drwytho’n trafodaeth a’n hargymhellion yn Rhan 1 o’r adroddiad hwn.

→ Mae adroddiad llawn y tîm ymchwil ar gael ar ein gwefan.

## Pwrpas Rhif 2

Mae’r adran hon o’r adroddiad yn amlinellu’r dysgu allweddol a ddeilliodd o ddatblygiad yr aseidiadau, wedi eu seilio’n bennaf ar waith y tîm ymchwil ond hefyd ar fewnwelediadau a gwybodaeth a gasglwyd gan fy Swyddfa drwy ymgysylltiad eang â BGCau – aelodau a thimau cynorthwyol.

Mae’r 17 argymhelliad o fewn yr adroddiad wedi manteisio ar y dadansoddiad hwn ac yn berthnasol i’r modd y mae BGCau wedi cael eu strwythuro ac yn ymgysylltu, a sut y dylai aseidiadau esblygu fel argymhellion ar gyfer cynllunio llesiant.

# Datblygiad asesiadau

## (dysgu ar gyfer cynllunio llesiant)

### 2.1

Mae'r adran hon yn manteisio ar dystiolaeth a gwybodaeth ehangach a gasglwyd o ystod o sefydliadau, yn ychwanegol at yr adroddiad a ddarparwyd gan y tîm ymchwil.

Archwiliodd y tim ymchwil sut yr oedd yr asesiadau'n cael eu cynhyrchu, cyd-destun ehangach eu cynhyrchiad, sut yr oeddent yn bwydo mewn i gynllunio llesiant, a sut yr oeddent yn cael eu gweld gan y rhai oedd yn eu cynhyrchu. Yn eu hadroddiad, nodwyd gan y tîm bod yr asesiadau'n awgrymu bod BGCau yn gweithredu mewn gwahanol ddulliau, fel a grynhoir isod:

**'Dull cydymffurfio'**: mewn rhai achosion ychydig iawn o gysylltiad oedd yna rhwng yr asesiad ei hunan a datblygiad cynllun llesiant, gyda rhai tимоedd BGCau (ar y pryd) yn aneglur am fwriad yr asesiad a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio yn y misoedd oedd yn dod i drwytho cynllunio llesiant.

**'Dull sgwrsio'**: buddsoddodd llawer o FGCau adnoddau mewn ymgynghoriad eang â'u cymunedau am yr hyn a olygai llesiant iddynt hwy, gydag ychydig o ddealltwriaeth glir, efallai, o'r modd y gallai'r drafodaeth eang hon drwytho'r cynllun yn y misoedd oedd yn dod. Roedd rhai timau BGCau o'r farn y byddai efallai wedi bod yn well i wario mwy o amser ar gychwyn y broses i feddwl beth oedd bwriad y cynllun, cyn cychwyn ymgynghori'n eang am yr asesiad.

**'Dull goddrychol'**: ymddengys bod llawer o'r BGCau yn gweld yr asesiad fel ffordd o gasglu tystiolaeth i gefnogi'r rhesymeg am yr hyn a fyddai'r cynllun llesiant yn ei gynnwys, gyda ffocws cryf ar wrthrychau. Yn yr achosion hyn, ni chafodd y tîm ymchwil y teimlad bod yr asesiadau'n cael eu gweld fel dull o weithio i fuddsoddi ynddo dros gyfnod o amser.

**'Dull buddsoddi'**: roedd rhai BGCau yn amlwg wedi sefydlu eu hasesiadau fel dull o weithio i ychwanegu ato dros amser, yn nhermau'r data a'r dystiolaeth fel ei gilydd, o dan wahanol themâu, neu mewn proffiliau cymunedol. Roeddent wedi ymrwymo i fuddsoddi adnoddau i ddatblygu eu tystiolaeth ac mewn rhai achosion roedd yna hefyd fyfyrddod cryf ar fylchau mewn data ac ansawdd data.

**'Dull cymhwyso eangach'**: mewn ychydig achosion, roedd arwyddion y gallai'r asesiad ddylanwadu ar agendâu eraill o fewn yr ardal leol, er enghraifft drwy gysylltiadau clir â'r broses cynllunio datblygu lleol.

**'Dull herio'**: fel y caiff ei egluro nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, awgryma'r tîm ymchwil y gallai asesiadau gael eu defnyddio i archwilio a herio barn draddodiadol ar llesiant ar y lefel lleol, er mai prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos bod llawer o FGCau yn defnyddio'r dull hwn ar hyn o bryd.



## Argymhelliad

Rhaid i'r holl bartneriaid sicrhau eu bod yn buddsoddi yn yr asesiadau fel dulliau gweithredu i'w datblygu, er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o lesiant a'u helpu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gallai ystod yr ymagweddau hyn egluro rhai o'r rhwystrau a brofwyd gan dimau BGCau yn cynnwys parodrwydd (neu ddiffyg parodrwydd) cyrff i rannu gwybodaeth a statws a phroffil yr asesiad mewn perthynas â gwaith arall oedd yn galw ar amser partneriaid ac uwch arweinyddion. Tra'i bod yn anodd gwneud cysylltiad clir â'r lefel o ddiddordeb (ac felly ymrwymiad amser ac adnoddau) a ddangoswyd gan aelodau BGCau ac ansawdd yr asesiadau, mae dystiolaeth anecdotal oddi wrth rai timau cynorthwyol BGCau yn awgrymu bod llawer o'r gwaith ar yr asesiadau wedi cael ei wneud 'ar ben y gwaith bob dydd' ac felly roedd eu gallu i fuddsoddi eu holl egni yn y gwaith yn gyfyngedig. Mae'r adnoddau a fuddsoddwyd yn y gwaith hwn (ac yn fwy cyffredin yng ngwaith BGCau) yn fater a godais yn ddiweddar gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol parthed cywirdeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Bil.

Mae hefyd yn werth nodi bod y gwahanol ganfyddiadau o'r hyn ydyw asesiadau wedi arwain rhai BGCau i wneud ymdrech i greu cytbwysedd anodd iawn rhwng darparu dogfen hygyrch, sy'n edrych allan ac sy'n adlewyrchu'r 'sgwrs' gyda'r cyhoedd, ochr yn ochr â data technegol ar lesiant wedi eu cyrchu o nifer o wahanol ffynonellau. Yn y dyfodol gallai BGCau ystyried datblygu nifer o wahanol 'gynnyrch' ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd i gyfleu'r data a'u harwyddocâd ar wahanol lefelau o gymhlethdod.

### Cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy

Mewn statudau diffinnir yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel 'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.' I weithredu yn unol â'r egwyddor rhaid i gyrff cyhoeddus dalu sylw i'r pum dull o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio ac ymgyfrannu), pob un ohonynt yn cael eu trafod yn fanwl mewn gwahanol rannau o'r adroddiad hwn.

Fodd bynnag mae hefyd yn bwysig bod yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'n cael ei ystyried yn ei hanfod ei hunan oherwydd ei fod yn ffocysu gweithrediadau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'n annhebygol y bydd BGCau yn herio ymagweddau sy'n bodoli eisoes os yr ydynt yn cymhwyso'r dulliau o weithio yn unig - ac nid yr egwyddor ei hunan yn eu gwaith.

### Cydweithio gyda phartneriaid traws-sector a chenedlaethol

Mae'n glir bod y broses o ddatblygu'r asesiadau wedi cataleiddio cydweithrediad y sector cyhoeddus i esblygu mewn ardaloedd lleol, yn cynnwys drwy alluogi ymagweddau hynod wahanol i weithio gyda'i gilydd - er enghraifft yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (Cwm Taf), yng Nghonwy a Sir Ddinbych, ac yng Ngwent lle cafodd grŵp asesu llesiant strategol ei sefydlu i rannu dysgu ymhlith pum ardal leol BGC. Fodd bynnag, tra bo'r cydweithio hyn yn gymeradwy mae yna le ar gyfer mwy o gydweithio ar draws ardaloedd BGCau, gwahanol sectorau a gyda chyrff cyhoeddus cenedlaethol.

## Argymhellion

Dylid gwneud rhagor o waith i ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau bywyd pobl drwy gasglu a defnyddio llawer mwy o'r wybodaeth am lesiant pobl nag sydd gan sefydliadau sy'n bartneriaid, yn ogystal â gwneud defnydd o'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu 'o ddydd i ddydd' ar lawr gwlad mewn cymunedau gan ystod o wasanaethau.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) wedi casglu mewnwelediadau oddi wrth eu cadeirydd, staff a saith o gynghorau cymunedol gwirfoddol am rôl y sector mewn perthynas â'r asesiadau. Mae rhai o'u mewnwelediadau fel a ganlyn:

- Mae i ba raddau y mae'r asesiadau wedi elwa o'r wybodaeth o'r trydydd sector yn amrywio: mewn rhai ardaloedd mae llawer o ddata arwyddocaol wedi eu ddarparu, yn arbennig drwy'r CGGau lleol, tra bo CGCau a chyrrff eraill mewn ardaloedd eraill wedi teimlo eu bod wedi eu tanddefnyddio.
- Mewn rhai ardaloedd mae cydnabyddiaeth galonogol o werth y data y gellir eu ddarparu gan y trydydd sector: fodd bynnag tra bo rhai cyrrff cyhoeddus eu hunain wedi mabwysiadu ffurf o ymgysylltu, gyda chwestiynau wedi eu fframio'n ddefnyddiol o gwmpas 'beth sy'n bwysig i chi?', sy'n fwy cadarnhaol na'r ymagwedd 'ymgyngoriadau a'r cwestiynau cyfyng', mae wedi bod yn heriol i'r BGCau i gynnwys ac adlewyrchu'r data seiliedig ar brofiad, ansoddol sy'n aml yn gyfoethog, oedd ym meddiant y trydydd sector yn yr asesiadau.

— Mae yna angen dybryd am ddatblygu sgiliau ar gyfer dadansoddi a defnyddio'r math hyn o ddata seiliedig ar brofiad, er mwyn iddo gael ei adlewyrchu'n well yn yr asesiadau ac yn y pen draw drwytho cynllunio llesiant. Mewn rhai ardaloedd gall bod yna beth amheuaeth o hyd am werth data seiliedig ar brofiad, ac a ydyw mewnwelediadau a ddarperir gan y trydydd sector yn ddigon cadarn. (Er enghraifft gall data ac arolygon yn hytrach na grwpiau ffocws ac anecdodau ddal i gael eu ffafrio).

Mae'r asesiadau hefyd yn awgrymu mai ychydig o ymgysylltu a fu â'r sector preifat ac ystyriaeth o'u rôl mewn llesiant, p'un ai fel cyflogwyr, fel rhan o ffabrig y gymuned, neu fel 'asedau' economaidd lleol.

Roedd y defnydd o ddata a thystiolaeth ym meddiant cyrrff cenedlaethol hefyd yn fratiog a golygai hyn fod cyfleoedd efallai wedi eu colli i ddarparu mwy o fewnwelediad mewn ardaloedd arbennig. Mae angen meddwl mwy am y modd y mae cyrrff cenedlaethol megis lechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a'r Amgueddfa a'r Llyfrgell Genedlaethol yn medru ychwanegu gwerth at gynllunio llesiant.

Dylai fod yna gynllun cyd-gysylltiedig i'w cynnwys mewn cynllunio llesiant i alluogi rhannu gwybodaeth ac adnoddau yn effeithlon, gan nad yw'n ymarferol i'r cyrrff hyn ryngweithio'n gyson gyda phob BGC.

### Ennyn ymgyfraniad pobl i ddeall profiadau eu bywyd

Mae'n amlwg bod y BGCau wedi gwneud ymdrech fawr i ymgysylltu â'r cyhoedd i gasglu eu barn a datblygu tystiolaeth ar gyfer yr asesiadau, gyda rhai BGCau yn llwyddo i ymgysylltu â miloedd o bobl. Fodd bynnag, roedd y dehongliad o'r deunydd hyn a gasglwyd yn ofalus yn yr asesiad ei hunan yn amrywiol, gyda rhai yn gwau data ansoddol yn naratif cymhellgar am lesiant, eraill yn darparu mapiau geiriau, neu restrau o faterion heb lawer o ddehongli.

## Argymhellion

Fel rhan o gynllunio llesiant dylid ystyried Gwybodaeth a thystiolaeth oddi wrth gyrrff cenedlaethol nad ydynt yn aelodau o FGCau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gysylltu agendâu ehangach â'i gilydd.

## Argymhelliad

Dylai BGCau ystyried sut y gallant adeiladu ar eu gwaith ymgyfrannu a wnaethpwyd hyd yn hyn, a chydweithio'n well gyda'i gilydd yn cynnwys drwy ddefnyddio cyfryngau sy'n taro tant gyda phobl (yn cynnwys cyfryngau digidol).

Mae yna rai asesiadau sy'n defnyddio dulliau creadigol o gyrraedd pobl yn cynnwys 'y Blaenau Gwent a garem' a gynhyrchodd lawer o'r delweddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, a'r 'Wrecsam a garem' oedd yn cynnwys ymgyfraniad pobl ifanc. Hefyd, mae Ceredigion a Chaerffili'n enghreifftiau o asesiadau sy'n llwyddo i greu cytbwysedd rhwng mewnwelediad ansoddol a thystiolaeth ansoddol.

Fel yr eglurwyd yn Rhan 1 'sut mae pobl yn ymgysylltu yn eu cymunedau a'r hyn a feddylant', tra bo rhai asesiadau'n casglu barn ar i ba raddau mae pobl yn teimlo'n rhan o'r broses o datblygu asesiadau, yn gyffredinol nid oes llawer o ystyriaeth o farn pobl ynglŷn â'u hymgysylltiad â'r broses o wneud penderfyniad ar raddfa leol.

Tra bo BGCau wedi llwyddo i gynyddu ymgyfraniad pobl mae'n amlwg bod rhagor o waith i'w wneud i sicrhau bod ymagweddau newydd yn cael eu datblygu a fydd yn galluogi gwasanaethau i ddefnyddio ystod o ddata seiliedig ar brofiad sy'n cael eu casglu gan wasanaethau ar lawr gwlad, a chryfhau hyn drwy ennyn ymgyfraniad effeithiol i ddeall yn well brofiadau bywyd pobl.

Elfen allweddol yn hyn o beth yw manteisio i raddau helaethach ar gyfleoedd i gydweithio. Digwyddodd hyn yn effeithiol gyda rhai enghreifftiau o weithgareddau ymgysylltu ar y cyd rhwng BGCau, ond ychydig o dystiolaeth a geir gan FGCau sy'n cysylltu hyn â gwaith ymgysylltu arall. Gellid arbed adnoddau ac amser petai BGCau a'u haelodau cyfansoddol yn rhoi mecanweithiau yn eu lle ar gyfer ymgysylltu parhaus mwy cydlynol, nid yn unig ar gyfer asesiad pendodol ond fel ffordd o gasglu gwybodaeth yn gyson o'u cymunedau.

Elfen arall allweddol yw gwneud gwell defnydd o offer digidol: archwilio sut y gallai ymgyfraniad digidol ennyn ymgysylltiad grwpiau newydd o bobl, galluogi pobl a chreu cysylltiadau newydd ar lefel lleol. Mae yna gorff sy'n tyfu'n gynyddol o arfer da byd-eang mewn 'democratiaeth ddigidol' a gallai archwilio hyn fod yn gyfle i FGCau ledled Cymru gydweithio a dysgu ar y cyd.

### Cysylltu â strategaethau a chynlluniau eraill

Nid oedd llawer o arwyddion ymhlith y mwyafrif o'r BGCau bod yr asesiadau wedi cael eu datblygu gyda chysylltiadau clir â strategaethau a chynlluniau eraill mewn golwg, heblaw am yr asesiadau a'r adolygiadau a restrir yn y canllaw statudol. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ymddengys bod y cysylltiad â chynlluniau datblygu lleol yn gyfle a gollwyd o gadw mewn golwg ei arwyddocâd yn nhermau datblygu tai a seilwaith cysylltiedig, cyfleoedd cyflogaeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol, ac ystyriaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol.

Cafodd rhai o'r asesiadau eu datblygu gyda chysylltiadau agos â'r broses gyfochrog o ddatblygu Asesiad Poblogaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant, gydag ymagweddau adeiladol tuag at rannu data ac ymgysylltu. Fodd bynnag noda'r tîm ymchwil bod hyn yn aml yn anodd a dryslyd i staff, y cyhoedd a sefydliadau eraill oedd yn ymgyfrannu.

Mae yna gyfle i gynllunio llesiant i greu cysylltiadau ag ystod o gynlluniau a meysydd gwaith sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth yn cynnwys Deddf yr Amgylchedd, Mesur yr Iaith Gymraeg a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a'r Ddeddf Trais Rhywiol.

### Argymhelliad

Dylai BGCau ystyried sut i gysylltu cynlluniau llesiant â strategaethau a chynlluniau eraill, yn cynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Ddeddf Llesiant, a chynlluniau datblygu lleol. Bydd hyn yn galluogi meysydd darpariaeth allweddol i gael eu cynnwys fel rhan o'r darlun mwy o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

# Llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus

## 2.2

Mae'r adran hon yn manteisio ar dystiolaeth ehangach a gwybodaeth a gasglwyd gan y Swyddfa o ystod o sefydliadau, yn ychwanegol at yr adroddiad a ddarparwyd gan ein tîm ymchwil.

### Edrych yn ôl dros flwyddyn gyntaf BGCau

Ar adeg cyhoeddi eu hasesiadau, roedd BGCau wedi bod yn gweithredu am oddeutu blwyddyn, felly mae'r amser wedi dod i ystyried a ydynt yn manteisio i'r eithaf ar eu potensial i fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer cyflwyno dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, neu ai byrddau gwasanaethau lleol ydynt o dan enw arall.

Mae mewnwelediad a gwybodaeth a roddwyd i fy swyddfa, yn cynnwys drwy'r cymorth o roddwyd gennym ni i dimau BGCau yn ystod datblygiad yr asesiadau, wedi awgrymu'r cyfleoedd canlynol ar gyfer ystyried a ydyw'r ffordd y mae BGCau yn cynorthwyo ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cystal ag y gallai fod.

**A.** Sut caiff cyfarfodydd BGCau eu rheoli

Arsylwyd bod cyfarfodydd BGCau y medru cynnwys nifer fawr o gyflwyniadau nad ydynt yn berthnasol, yn aml heb ofod ar yr amserlen i drafod materion cymhleth a heriol, neu i drafod ymagweddau creadigol arloesol. Ni ddylai BGC o reidrwydd fod yn lle cysurus sy'n cefnogi busnes-fel-arfer ond dylai ddod yn fforwm ar gyfer her adeiladol ymhlith yr aelodau. Mae'n bwysig i osgoi gorlwytho BGCau ag adroddiadau, proses a biwrocratiaeth a dylai'r agenda a rheolaeth cyfarfodydd gael eu llunio'n ofalus i ganiatáu'r gofod i aelodau ystyried yn llwyr sut y gallant gyda'i gilydd weithredu'r pum dull o weithio yng nghyd-destun a chyflwyniad eu cynlluniau llesiant.

**B.** Pwy sy'n cadeirio ac arwain BGCau

Dylid rhoi ystyriaeth i bwy sy'n cadeirio BGCau, a beth a olyga hyn i'r modd y caiff cyfarfodydd eu hamgyffred a'u rhedeg. Un opsiwn posibl fyddai cael cadeirydd nad yw'n aelod craidd (ymagwedd sydd wedi ei mabwysiadu gan nifer o FGCau), neu gallai fod yn swydd y gellid ei chylchdroi. Mae'n bwysig bod holl aelodau BGCau yn medru trwytho a dylanwadu ar waith BGCau yn cynnwys drwy osod yr agendâu.

**C.** Pwy sy'n eistedd ar FGCau?

Mae'n bwysig bod y bobl sy'n eistedd o gwmpas y bwrdd yn medru trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol yn ôl i'w sefydliadau a'u sectorau er mwyn dwyn yr ystod orau o ddata a mewnwelediad i alluogi cynllunio llesiant effeithiol. Dylid meddwl yn ddidwyll a myfyrio ymhellach mewn perthynas ag i ba raddau y mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd a pha gyfleoedd sydd ar gael i wella.

**D.** Ble mae BGCau yn cwrdd

Arsylwyd bod llawer o gyfarfodydd y BGCau yn cael eu cynnal yn ystafelloedd yr awdurdod lleol; fodd bynnag yn nhermau creu cydberchnogaeth ac ymgyfraniad, dylid ystyried cynnal cyfarfodydd mewn lleoliadau niwtral neu gymunedol, neu gylchdroi lleoliadau i gynnwys aelodaeth ehangach y BGCau.

<b>E.</b> Agwedd BGCau tuag at herio busnes-fel-arfer	Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ymddengys bod BGCau yn orofalus yn y modd y maent yn ymdrin â llesiant, a heb fod eto'n manteisio ar y cyfleoedd i herio busnes-fel-arfer. Bydd y lefel hwn o her yn hollbwysig ar gyfer brwydro yn erbyn dulliau o feddwl sydd wedi hen ymwreiddio a galluogi ymagweddau newydd phersbectifau i'w datblygu.
<b>F.</b> Agwedd BGCau tuag at risg	Rhaid rhoi ystyriaeth i'r modd y mae aelodau BGCau a BGCau gyda'i gilydd yn ystyried risg a'r hyn sydd angen ei newid i'w galluogi i gymryd risgiau a reolir yn dda, gan ganiatáu ar gyfer arweinyddiaeth ymaddasol a'r gofod i fethu.
<b>G.</b> BGCau yn galluogi cydweithio dilys	Dylid meddwl am y modd y gall cydberchnogi ymgysylltiad, prosesau cynllunio a chyflwyno, alluogi pob partner, yn cynnwys y trydydd sector, i gyfrannu yn y dull mwyaf effeithiol ac ystyrlon – i bob pwrpas, partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd o fewn fframwaith y cytunwyd arno i wrando gyda'i gilydd, cynllunio gyda'i gilydd a gwerthuso gyda'i gilydd.

### Argymhelliad

Dylai BGCau ystyried a ydyw'r modd maent yn cael eu cadeirio a'u cynorthwyo yn cynorthwyo ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd orau, yn arbennig parthed hwyluso cydweithio, integreiddio ac ymgyfrannu. Dylent sicrhau bod y trefniadau'n hwyluso herio busnes-fel-arfer ac yn galluogi ymagweddau newydd a phersbectifau i gael eu datblygu.

Dylai BGCau adolygu eu haelodaeth wahoddedig i sicrhau bod cynrychiolwyr yn trosgwlyddo gwybodaeth yn ôl i'w sectorau'n effeithiol, i ddwyn data, mewnwelediad a phrofiad i'r BGC.

### Capasiti a gallu gwasanaethau cyhoeddus i ystyried a defnyddio tystiolaeth

Awgryma'r tîm ymchwil bod capasiti a gallu i ddefnyddio tystiolaeth, yn arbennig yn nhermau gwneud polisi, yn gyfyngedig ar draws Cymru a bod angen edrych arnynt fel pethau gwerthfawr ac fel adnodd.

Yn eu hadroddiad maent yn manteisio ar fframweithiau theoretig i egluro pam nad yw ymgymryd ag 'asesiadau datblygu cynaliadwy' o reidrwydd yn arwain at newid arfer, oherwydd lefel yr her y maent yn ei gyflwyno i agendâu presennol neu ddiddordebau dominyddol, a chymhlethdod cynhenid yr ystod o faterion o dan sylw.

Mae'r asesiadau wedi cael eu datblygu dros gyfnod cymharol fyr a gyda dibyniaeth fawr ar ddata a chapasiti polisi oddi wrth rai o'r sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu rhai o'r heriau allweddol sydd wedi eu hamlygu gan yr asesiadau yn cynnwys y tueddiad i fynd yn ôl at ddulliau traddodiadol o ddiffinio a fframio llesiant, diffyg archwiliad ystyrion o'r hyn a olygir gan lesiant ar y lefel cymunedol, a'r angen am fwy o ddehongli data a'r bwlch mewn capasiti a sgiliau i feddwl yn yr hirdymor.

Ystyriaeth i a fy nhîm ymchwil bod yr heriau hyn yn symptomatig o ddiffyg capasiti a sgiliau ar draws cyrff cyhoeddus i gasglu, dadansoddi a defnyddio tystiolaeth yn effeithiol, ac i wneud polisi sy'n seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth. Mae yna lawer rheswm am hyn, nid y lleiaf oherwydd y lleihad mewn adnoddau yn adrannau polisi neu gorfforaethol cyrff cyhoeddus oherwydd cyfyngiadau ariannol, ond mae angen rhoi ystyriaeth, ar draws gwasanaethau cyhoeddus, prifysgolion a sefydliadau eraill a f edr chwarae rol yn y dasg o fynd i'r afael â hyn.

### Argymhelliad

**Dylai pob corff cyhoeddus archwilio dulliau o fynd i'r afael â bylchau mewn capasiti a gallu i ddadansoddi data a gwneud polisi seiliedig ar dystiolaeth, gan gydnabod y bydd methu gwneud hynny'n rhwystr allweddol i weithrediad ystyrion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

## Fframio Llesiant

## 2.3

Darganfu'r tîm ymchwil bod BGCau wedi mabwysiadu ystod eang iawn o ymagweddau tuag at gwmpas, natur a'r dulliau o ddehongli llesiant ar draws y 19 asesiad. Hyd yn oed yn y rhai a ddefnyddiodd ddata cyffredin (er enghraifft awdurdodau Gwent) neu a ystyriodd llesiant o bersbectif tebyg (er enghraifft BGCau gorllewin Cymru'n ffocysu ar gyfnodau bywyd neu FGCau gogledd Cymru'n defnyddio set o ddata cyffredin), yr oedd y modd y cafodd llesiant ei 'fframio' a'i ddisgrifio yn wahanol.

Mae **Tabl 2** yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r ymagweddau tuag at ddehongli a disgrifio llesiant.

Mewn llawer o asesiadau roedd yna ddiffyg eglurhad am baham yr oedd BGCau wedi mabwysiadu eu dull dewisedig o egluro llesiant. Archwiliodd y tîm hyn drwy sgysia ffôn gyda thimau BGCau gydag ymatebion yn amrywio o "dewisasom ein hymagwedd o'r data oedd ar gael" i "rhesom ystyriaeth ofalus i ba ymagwedd fyddai'n taro tant gyda phartneriaid a'r cyhoedd". Glynodd rhai BGCau wrth 'fframiau'n seiliedig ar waith blaenorol ar gynllunio integredig sengl, er enghraifft Caerdydd, Abertawe a Bro Morgannwg, tra'r oedd eraill wdi mabwysiadu'r cyfle i ddatblygu ymagweddau newydd i ystyried llesiant.

Mewn rhai asesiadau nid oedd yn glir pam yr oedd y themâu, y mesurau a'r strwythur wedi cael eu dewis i gynrychioli llesiant, ac mewn llawer, oherwydd diffyg dehongliad o ddata, nid oedd yn glir pam yr oedd pob un o'r mesurau, mewn gwirionedd, yn berthnasol i llesiant y gymuned.

### Defnyddio'r nodau llesiant i fframio cynllunio llesiant

Mabwysiadodd yr asesiadau ystod o ymagweddau i egluro sut yr oedd y disgrifiadau o llesiant lleol yn cysylltu â'r nodau llesiant (oedd yn pennu natur llesiant yng Nghymru). Dim ond rhai asesiadau a roddodd dystiolaeth bod diffiniad o bob nod mewn gwirionedd wedi ei archwilio gan y BGC i ychwanegu gwerth at drafodaethau am llesiant lleol - yn wir mewn rhai achosion mae asesiadau'n ailddiffinio'r nodau gyda'r bwriad pwpasol o osgoi talu sylw i ystod o bynciau a gynhwysir ynddynt.

Roedd yna ddiffyg cydnabyddiaeth neu dystiolaeth o faterion penodol yn effeithio ar nifer o nodau; darparodd llawer o'r asesiadau ymagwedd 'draddodiadaol' ac unigol tuag gysylltu materion arbennig â'r nodau, er enghraifft mesurau economaidd yn cysylltu'n unig â'r nod 'ffyniant'; tlodi yn unig â'r nod 'cydraddoldeb'; y nod ffyniant yn unig ag ansawdd amgylcheddol. Fodd bynnag mae'n galonogol bod BGCau Powys a

Chwm Taf wedi archwilio sut yr oedd materion arbennig yn effeithio ar nifer o nodau drwy eu hymgyngoriadau. Gellid adeiladu ar yr ymagweddau hyn a'u dyblygu gan FGCau eraill. Hefyd, darparodd yr asesiadau gyfeiriadau cyfyngedig at ddyletswydd gyfreithiol cyrff i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau.

Mae llawer o'r asesiadau'n awgrymu bod BGCau yn cyfyngu cwmpas y dadl ar llesiant drwy gyflwyno sut mae'r nodau'n berthnasol yn 'gyffredinol' yn hytrach na defnyddio'r diffiniadau o'r nodau fel cyfle i agor dadl am beth yw llesiant, ac am rolau gwahanol sefydliadau lleol wrth facsimeiddio eu cyfraniadau i'r nodau.



### Strwythur asesiadau

Mae **Tabl 3** yn Atodiad 1 yn dangos sut wnaeth pob un o'r BGCau strwythuro'u hymagwedd tuag at asesiadau. Mae'r tabl hefyd yn dangos y nifer o bynciau o fewn y themâu hyn, sy'n amrywio o 14 i 75 darn gwahanol o ddata 'adrodd stori' llesiant lleol. Dylid croesawu'r amrywiaeth hwn ac mae'n amlwg nad yw ansawdd asesiadau'n cael ei benderfynu gan eu strwythur - nid oes ffordd orau o ddatblygu'r darlun hwn o lesiant lleol.

Fel y pennwyd gan y tîm ymchwil yn eu hadroddiad, mae'r tablau canlynol yn dangos y 'pwnc' a ddefnyddiwyd amlaf ar gyfer pob agwedd o lesiant o dan y pedair thema llesiant – economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, ac maent yn dangos a ydyw'r rhain wedi eu fframio'n bennaf fel:

- 'problem' neu fater i'w reoli;
- ased i helpu i gyflwyno llesiant;
- ased a phroblem i'r gymuned leol

Roedd pynciau o dan **Lesiant Economaidd** yn cynnwys:

Pwnc economaidd	Amllder	Wedi ei fframio fel ased neu problem i'w rheoli?
Cyrhaeddiad economaidd a sgiliau	19	Ased
Asedau/cyfleoedd economaidd lleol	15	Ased
Incwm	12	Problem
Gweithgaredd a chyflogaeth economaidd	11	Problem
Seilwaith/cysylltedd trafndiaeth	11	Problem
Twf technoleg newydd/band eang	10	Y ddau
Hyfywedd Busnes a chefnogaeth	8	Problem
Cyfleoedd cyflogaeth lleol	7	Ased

### Argymhelliad

Dylai'r ddyletswydd statudol i facsimeiddio cyfraniadau i'r nodau llesiant sbarduno trafodaeth BGCau, eu dadl a'u hadrodd ar lesiant lleol yn hytrach na dim ond darparu cyd-destun eang.

Ymddengys bod llawer o FGCau wedi ymdrin â llesiant economaidd mewn dull ‘traddodiadol’ cul a bas gan ddefnyddio cyfuniad o fesurau oedd ar gael, rhestrau o asedau economaidd lleol a ffocws ar wasanaethau cefnogi busnes. Prin iawn oedd y dystiolaeth o ddata’n cael eu casglu i ddatblygu trafodaeth am beth ddylai dyfodol llesiant economaidd fod neu pa fath o economi y gellid ei ddatblygu yn yr ardal yn y dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â diffiniad gwirioneddol o’r nod ‘Cymru Ffyniannus’ sy’n cynnwys “cymdeithas carbon isel sy’n cydnabod terfynau’r amgylchedd byd-eang”. Gallai’r ymagwedd fwy traddodiadol hon a fabwysiadwyd gan rai BGCau olygu na fyddant mewn lle da i gwrdd â’u dyletswydd i facsimeiddio’u cyfraniadau i’r nodau, a bydd angen iddynt felly adolygu eu hymagwedd.

Roedd pynciau o dan **Llesiant Cenedlaethol** yn cynnwys:

Pwnc Cymdeithasol	Amllder	Wedi ei fframio fel ased neu broblem i’w rheoli?
Tai	19	Problem
Disgwyliad oes	17	Problem
Trosedd a diogelwch cymuned	17	Problem
Ffyrdd iach o fyw	16	Y ddau
Ymyriadau blynyddoedd cynnar	15	Problem
Iechyd emosiynol/meddyliol	14	Problem
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	14	Problem
Heneiddio’n well	12	Y ddau (problem yn bennaf)

Mae’r asesiadau’n awgrymu bod gan yr ‘agenda llesiant cymdeithasol’ ogwydd trwm tuag at iechyd, efallai oherwydd bod cyrff cyhoeddus yn arwain y dasg o gydlynu gwybodaeth ac mewn rhai achosion yn ysgrifennu’r adrannau hyn o’r asesiadau. Tra bo croeso i’r arfer o rannu’r cyfrifoldeb am gynhyrchu’r asesiadau ymhlith partneriaid BGCau, mae’r asesiadau’n ymddangos fel petaent yn adlewyrchu’r tueddiad i barhau i fframio llesiant mewn dull traddodiadol gydag ystyriaeth rhai adrannau arbennig yn cael eu ddyrannu i’r rhai arferol (sefydliadau) heb fanteisio ar y cyfoeth o wybodaeth a mewnwelediad oddi wrth aelodau eraill y BGC a thu hwnt, i helpu gyda dadansoddiad mwy integredig o lesiant.

Heblaw am dai, dominyddwyd y ‘ffrâm’ llesiant cymdeithasol gan gyfoeth o ddata perthnasol i iechyd a ddefnyddiwyd yn dda i egluro pwysigrwydd y problemau hyn a phwysigrwydd atal iechyd gwael. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y gymuned ac asedau cymdeithasol fel rhan o sylwebaeth ehangach ar lesiant cymdeithasol yn yr ardal.

## Argymhelliad

Wrth gynllunio llesiant, rhaid i FGCau ddangos eu bod yn pennu amcanion ac yn gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu'r modd y caiff lleisiant ei ddiffinio yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach nag adlewyrchu syniadau a dulliau traddodiadol o wneud pethau.

Roedd pynciau o dan **Llesiant Amgylcheddol** yn cynnwys:

Pwnc Amgylcheddol	Amllder	Wedi ei fframio fel ased neu broblem i'w rheoli?
Cysylltedd bioamrywiaeth a chynefin	13	Y ddau
Gwastraff ac ailgylchu	12	Problem
Tirwedd fel ased economaidd	11	Ased
Rheoli llifogydd	10	Problem
Lleihau allyriadau carbon	9	Problem
Rheoli dŵr	8	Problem
Newid hinsawdd	8	Problem
Ansawdd aer	8	Problem

Roedd cydnabyddiaeth bendant drwy'r holl asesiadau o werth amgylchedd o ansawdd a thirwedd i lesiant a chafodd hyn le amlwg iawn mewn ymgysylltiadau lleol. Ar yr un pryd, y prif dull o fframio llesiant amgylcheddol oedd yn nhermau problemau i'w rheoli, a'r gwasanaethau a gyflwnir gan gyrff cyhoeddus i reoli'r problemau hyn (rheoli llifogydd, rheoli gwastraff ac ailgylchu). Mae angen dyfnhau'r drafodaeth ar heriau polisi amgylcheddol allweddol i gymunedau lleol os yr ydym i ddeall arwyddocâd y materion hyn i feysydd llesiant eraill. Er enghraifft, er bod llawer o'r asesiadau'n disgrifio pam yr oedd bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer yn bwysig yn nhermau generig, cyfyngedig oedd y mewnwleidiad i'w harwyddocad i lesiant cymunedau yn yr ardal.

Roedd pynciau'n o dan y pennawd **Llesiant Diwylliannol** yn cynnwys

Pwnc diwylliannol	Amllder	Wedi ei fframio fel ased neu broblem i'w rheoli?
Yr iaith Gymraeg	17	Y ddau
Grwpiau celfyddydau creadigol a phrosiectau	10	Ased
Chwaraeon a hamdden	7	Ased
Hunaniaeth ddiwylliannol	6	Ased
Twristiaeth	5	Ased
Asedau diwylliannol penodol	5	Ased

Mewn cymhariaeth â llawer o'r adrannau eraill, ar y cyfan cafodd nodweddion diwylliannol llesiant eu fframio fel asedau. Fodd bynnag, roedd yr ymagwedd a fabwysiadwyd tuag at asesu llesiant diwylliannol yn ymddangos yn fas a chul, gan fanteisio ar arolygon cenedlaethol o ymweliadau ag amgueddfeydd, deunydd cyfrifad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg a data awdurdod lleol ar ymweliadau a chyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd. Tra fy mod yn cydnabod bod diffyg argaeledd data yn her, mae angen i FGCau roi llawer gwell disgrifiad o fywiogrwydd diwylliant eu hardaloedd – eu celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, rhwydweithiau gwybodaeth, rôl y cyfryngau cymdeithasol, economi'r nos.

# Persbectifau'r Gymuned

## 2.4

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chanllawiau statudol yn nodi'n glir y dylai asesiadau ffocysu ar lesiant o bersbectif lle ac ystyried anghenion cymunedau arbennig yn eu hardal.

### Deall cymunedau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y Nifer o 'ardaloedd cymunedol' a ddiffiniwyd gan bob BGC.

Ardal	Nifer	Ardal	Nifer
Ynys Môn a Gwynedd	15	Sir Fynwy	5
Blaenau Gwent	4	Castell Nedd Port Talbot	8
Pen-y-bont	3	Casnewydd	21
Caerffili	1	Sir Benfro	3
Caerdydd	6	Powys	7
Sir Gaerfyrddin	6	Abertawe	6
Ceredigion	1	Torfaen	3
Conwy & Sir Ddinbych	11	Bro Morgannwg	3
Cwm Taf	4	Wrecsam	1
Sir y Fflint	7		

Dangosodd y tîm ymchwil bod rhai BGCau yn ffocysu ar yr ardal gyfan, gyda dealltwriaeth gyfyngedig o faterion lleol; dadansoddodd eraill eu hardal ar sail 'etholaethau' a fyddai'n cael eu hadnabod gan ac yn taro tant gyda'r bobl oedd yn byw yno. Roedd meini prawf daearyddol eraill a ddefnyddiwyd gan FGCau yn cynnwys y rhai a ddefnyddir gan yr heddlu, wardiau cyngor a meysydd oedd eisoes yn cael eu defnyddio wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ar dodi ac amddifadedd (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a Chanolig – LSOA a MSOA).

Wrth adolygu asesiadau roedd yn glir bod rhai o broffiliau ardaloedd cymunedol yng nghyfnodau cynnar eu datblygiad, yn cynnwys rhestrau o ddata, mapiau a dim llawer mwy. Mae'n bosibl bod yr ymagweddau hyn yn dangos dymuniad i gyrraedd cydymffurfiaeth sylfaenol â'r canllawiau statudol ac os felly mae angen i FGCau ymgymryd â gwaith pellach i wneud yn siŵr nad ydynt yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r asesiadau i'w helpu i osod amcanion i facsimeiddio'u cyfraniadau i'r nodau.

Nodwyd hefyd bod yna nifer o FGCau oedd eisoes wedi datblygu darlun cyfoethog o gymunedau penodol yn eu hardal, gan fanteisio ar ddata ansoddol a meintiol i egluro sut brofiad ydyw hi i fyw mewn cymunedau arbennig a'r heriau allweddol a wynebwr gan bobl yn y cymunedau hyn. Mae'r BGCau hyn yn fwy tebygol o fod mewn gwell lle i ddatblygu cynlluniau llesiant sy'n cael effaith cadarnhaol ar eu cymunedau yn awr ac yn y dyfodol.

## Argymhelliad

Mae angen gwneud gwaith pellach i ddeall yn well y cyd-destunau, materion, heriau a chyfleoedd rhwng ac o fewn cymunedau mewn ardaloedd BGC (yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol yn unig), a dylai hyn fod yn glir mewn cynllunio llesiant.

### Egluro gwahaniaethau rhwng cymunedau

Roedd yn amlwg bod gan rai BGCau fwy o hyder wrth adnabod cymunedau penodol a'u heriau arbennig. Mewn rhai achosion, er enghraifft tlodi, roedd amddifadedd a llifogydd, mapiau a rhai sylwebaethau yn egluro lleoliadau penodol â heriau lleol penodol. Defnyddiodd BGCau eraill dystiolaeth debyg ond ni wnaethant ei ddehongli i egluro gwahaniaethau gofodol. Mae angen mwy o waith i ddeall a ydyw'r amrywiaeth hyn yn deillio o hyder BGCau i ddehongli data a gasglwyd, p'un a oes ganddynt y sgiliau neu'r capasiti i wneud hynny, neu a oes yna ddiffyg dymuniad i ddewis cymunedau penodol.

Canfyddiad allweddol ac argymhelliad yn deillio o'r gwaith hwn a'r mewnwelediad a gafwyd oddi wrth fy nhîm dros y flwyddyn ddiwethaf yw bod angen rhagor o gydnabyddiaeth o werth data ansoddol seiliedig ar le oddi wrth sefydliadau sy'n bartneriaid i

FGCau. Mae data ansoddol, yn cynnwys profiadau a mewnwelediadau, oddi wrth y trydydd sector a chyrrff eraill a rhwydweithiau yn hynod gyfoethog a dim ond mewn rhai achosion wnaeth y tîm ymchwil ystyried bod y math hyn o wybodaeth leol yn 'trwytho dealltwriaeth [y BGCau] o gymunedau a'u gwahaniaethau gofodol'. Mae hwn yn faes allweddol a fydd yn gyfle a gollwyd i'r BGCau os na eir i'r afael ag ef drwy gynllunio llesiant.

Fel y crybwyllwyd yn yr adran flaenorol, bwlch pwysig yn llawer o'r asesiadau oedd y diffyg cysylltiad â'r cynllun datblygu lleol, gyda dim ond ychydig ystyriaeth wedi ei roi i'r modd y mae'r cyfoeth o fyfyrddod, dadansoddiad a dehongliad sy'n mynd i mewn i GDLI, yn cynnwys gwerthusiadau o gynaliadwyedd ac asesiadau strategol, wedi medru trwytho'r asesiadau yn nhermau materion penodol-i-le, yn ogystal â heriau ar gyfer defnyddio tir yn y degawdau sydd i ddod.

### Ystyried asedau mewn cymunedau

Dangosodd yr asesiadau ddealltwriaeth gyfyngedig o'r cyfalaf economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ein cymunedau. Mae adeiladu darlun o'r asedau a beth sy'n dda am leoedd a chymunedau arbennig yn hollbwysig wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo. Mae angen ymagwedd strategol i fapio asedau, deall gwahanol 'gyfalafedd' (er enghraifft cyfalaf cymdeithasol) a chasglu safbwyntiau mwy manwl oddi wrth gymunedau am eu hasesiadau a sut y maent yn cael eu defnyddio.

Mae'n amlwg bod angen i rai o'r BGCau brysur i symud i'r gofod hwn, gan ffocysu ar asesiadau sydd ar gael i ddatrys problemau fel rhan o'r asesiad, yn hytrach na ffocysu ar broblemau ac ar sut fydd gwasanaethau cyhoeddus yn eu datrys, a dylid ystyried sut y gellir cefnogi BGCau yn well a rhoi iddynt fwy o adnoddau ar gyfer cyflawni'r newid hwn.

## Argymhelliad

Dylai BGCau ddatblygu mecanweithiau ar gyfer casglu a defnyddio data ansoddol seiliedig ar le a mewnwelediadau, yn arbennig oddi wrth y trydydd sector a'r sector preifat, gan gydnabod yn llwyr y gwerth y mae'n ei ychwanegu at gynllunio llesiant.

### Ystyried rôl BGCau mewn darpariaeth ranbarthol

Dangosodd asesiadau ddealltwriaeth a dadansoddiad cyfyngedig o rôl lleoedd o fewn cyd-destun rhanbarthol a phrin oedd yr arsylwadau am lesiant mewn perthynas â heriau polisi rhanbarthol yn cynnwys trafndiaeth, darpariaeth iechyd, tai, tirwedd, a chydnerthedd a datblygiad seilwaith allweddol.

Syndod arbennig oedd mai dim ond rhai o'r BGCau - sy'n rhan o gynigion y Fargen Ddinesig - a gyfeiriodd at, neu a fanteisiodd ar fewnwelediad a data o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y lefel hwn.

Wrth i FGCau ymgymryd â chynllunio llesiant bydd angen iddynt ystyried eu cysylltiadau ag agendâu economaidd, iechyd a seilwaith a manteisio i'r eithaf ar yr ymagwedddau cydweithredol sy'n dod i'r amlwg o fewn 'clystyrau' o FGCau mewn gwahanol rannau o Gymru.

### Argymhelliad

Wrth gynllunio llesiant, dylai BGCau egluro sut y maent yn ystyried datblygiadau rhanbarthol, mecanweithiau cydweithio a chyfleoedd.

# Dehongli data

## 2.5

Roedd sut y dehonglwyd y data a gynhwyswyd mewn asesiadau yn fater allweddol yn y mwyafrif o adroddiadau adborth o'r swyddfa i'r BGCau. Cafodd llawer o'r asesiadau eu 'harwain gan ddata' - roeddent yn seiliedig o gwmpas data oedd ar gael a gafodd wedyn eu mapio i ardaloedd neu bynciau llesiant, yn hytrach na defnyddio llesiant fel man cychwyn a manteisio ar ddata perthnasol. Awgryma'r tîm ymchwil mai prin oedd y dehongliad mewn llawer asesiad o ddata a gasglwyd: bod y gwannaf wedi darparu compendiwm o ddata gyda dadansoddiad cyfyngedig a'r cryfaf wedi defnyddio'r data i ddangos yn llwyddiannus heriau llesiant ehangach ar gyfer yr ardal. Nododd y tîm hefyd bod hwn yn ddarlun cymysg ar draws Cymru ac yn aml o fewn adrannau o bob asesiad.

### Argymhelliad

Cyn i gynlluniau llesiant gael eu sefydlu, dylid ymgymryd â gwaith 'twrio'n ddyfnach' i ddata i ddeall yn well yr achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau, mewn perthynas â llesiant cymuedol a llesiant unigolyn.

Dylai'r data mewn asesiadau alluogi BGCau i ddeall y sefyllfa bresennol a hefyd raddfa a natur yr ymateb oedd ei angen. Mater allweddol yw y gallai'n aml fod yna neges ymhlyg yn y data oedd ag angen 'twrio dyfnach' neu eglurhad pellach ond mae prinder archwilio cwestiynau fel 'felly beth yw ystyr y data hyn?' a 'beth mae'n awgrymu sydd angen ei newid?' Rhoddir sawl enghraifft o hyn yn Rhan 1 o'r adroddiad hwn, yn cynnwys yn yr adran 'atal afiechyd ac ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd'. Mae llawer o'r asesiadau'n dangos bod graddfeydd gweithgaredd corfforol ymhlith plant yn gwella ond mae gordewdra hefyd yn cynyddu (a rhagwelir y bydd hyn yn parhau) ond ychydig o ystyriaeth a roddir i'r rhesymau am hyn.

## Argymhelliad

Mae angen mabwysiadu ymagwedd fwy integredig tuag at ddehongli data ar draws llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Cyn cynhyrchu cynlluniau llesiant, dylai BGCau ailymweld â'r data yn eu hasesiad i ddeall sut mae gwahanol faterion yn cydgysylltu a beth a olyga hyn i lesiant mewn ardaloedd arbennig.

Mae angen i FGCau sicrhau bod y ffrâm a'r data a ddefnyddir ganddynt yn cynorthwyo'r naratif am lesiant lleol, yn hytrach nag arwain y naratif am lesiant. Golyga hyn bod angen, ar gyfer pobl darn o wybodaeth, eglurhad clir am baham ei fod yn bwysig i welliant, a bod angen i gysylltiadau pendant â llesiant gael eu gwneud yn fwy eglur os ydyw'r data i fod yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

### Gwneud y cysylltiadau rhwng data ar wahanol faterion

Elfen allweddol arall o fy adborth i bob BGC oedd sut yr oedd asesiadau'n peintio darlun integredig o lesiant. Tra ymgymerodd rhai BGCau ag ymarferion penodol ar gyfer yr asesiad i feddwl am eu data ar draws y saith nod llesiant a phedair thema llesiant, edrychodd llawer mwy ar faterion arbennig a heriau polisi o fewn seilos presennol, o fewn ffrâm gul iawn a thraddodiadol.

Yn 'rôl mannau agored a lleoedd yn llesiant pobl' yn Rhan 1 o'r adroddiad hwn, enghraifft or ymagwedd hon yw bod llawer o'r asesiadau'n rhoi data a naratif am amgylchedd naturiol eu hardal a bioamrywiaeth, yn cynnwys rhai mewnwelediadau i sut y maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cânt eu cynnwys mewn adran ar yr 'amgylchedd' gyda chyfeiriad 'cyfyngedig' at werth yr amgylchedd i lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

### Enghreifftiau o ble na wnaethpwyd cysylltiadau syml oedd:

- Ansawdd aer ac iechyd
- Tir halogedig a llifogydd
- Busnes a'r Fargen Ddinesig.
- Twristiaeth ac asedau amgylcheddol (a pharciau cenedlaethol)
- Busnes a thrafnidiaeth
- Seilwaith a'r newid yn yr hinsawdd
- Bioamrywiaeth ac amaeth
- Busnes gwledig a chysylltedd
- Unigedd gwledig ac iechyd meddwl
- Technoleg newydd a chydlynad cymunedol

Mae gan bob un o'r 'pynciau' berthynas uniongyrchol â'r llall, eto ni archwiliwyd eu perthynas na hyd yn oed ei gydnabod yn rhai o'r asesiadau, er gwaethaf argaeledd setiau data. Mae hyn yn dangos BGCau yn casglu data, yn disgrifio'r data ond ddim yn eu defnyddio i asesu llesiant lleol. Enghraifft dda o ble cafodd hyn ei wneud yn dda oedd yn Sir y Fflint lle eglurodd yr asesiad y berthynas rhwng pobl ifanc, tai gwledig ac unigedd gwledig (tair o setiau data ar wahân) ond aethant ati i'w dehongli i ddisgrifio her llesiant benodol i bobl ifanc lleol.



### Egluro goblygiadau'r data i'r sector cyhoeddus

Er eu bod yn dangos ystod o dueddiadau brawychus, yn gyffredinol mae'r asesiadau'n peintio darlun diogel ac annadleuol o lesiant ar y lefel lleol, heb gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus (â ganddynt gefnogaeth wleidyddol) yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r tîm ymchwil yn awgrymu bod yr asesiadau'n gyffredinol yn rhoi dadansoddiad cyfyngedig o oblygiadau eu data i'r modd y mae'r sector cyhoeddus yn darparu gwasanaethau, ac mae angen meddwl ymhellach am hyn i sicrhau bod BGCau yn datblygu amcanion llesiant a chynlluniau sy'n gosod yn eu lle ymagweddau cadarn tuag at ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a thrwytho ail-ddyluniad eu gwasanaeth hwy eu hunain. Mewn perthynas â mater neu bwnc byddai'n ddefnyddiol i ystyried beth yw'r heriau allweddol i gymunedau a'r sector cyhoeddus, a yw ymagweddau presennol yn ddigonol i gwrdd â'r heriau yn yr ardal a pha weithrediadau pellach sydd eu hangen a phwy sydd angen ei wneud.

Mater perthnasol yw i ba raddau y mae'r asesiadau'n archwilio'r heriau, y pwysau, y 'cyfaddawdu' a chyfleoedd ar gyfer llesiant ar lefel lleol. (Mae 'cyfaddawdu' yn golygu gwahanol elfennau o benderfyniad neu faterion polisi gwahanol a allai achosi tensiwn rhwng y naill a'r llall) Roedd yn amlwg mewn llawer achos nad yw BGCau yn cydnabod neu'n archwilio cyfaddawdu sy'n berthnasol i bolisi allweddol neu flaenoriaethau gyflenwi gwasanaeth, er enghraifft cyfaddawdu rhwng trafndiaeth ac iechyd, defnydd tir a'r newid yn yr hinsawdd neu foamrywiaeth a datblygu economaidd, sy'n codi o'r asesiadau hyn.

### Argymhelliad

Er gwaethaf y dystiolaeth yn yr asesiadau sy'n dangos ystod o dueddiadau brawychus, mae BGCau yn ymgysylltu'n unig â thiriogaeth diogel ac annadleuol. Mae angen i FGCau ddangos sut y maent yn adnabod ac archwilio'r tensiynau rhwng gwahanol faterion polisi a blaenoriaethau i alluogi trafodaeth ddidwyll am yr ymagweddau newydd sydd angen eu mabwysiadu.

# Ystyried yr hirdymor a chenedlaethau'r dyfodol

## 2.6

Mae ystyriaeth o'r hirdymor yn tanategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried 'pwysigrwydd cynnal cytbwysedd rhwng anghenion y tymor byr a'r angen i warchod y gallu i gwrdd ag anghenion hirdymor, yn arbennig lle gallai'r pethau sy'n cael eu gwneud i gwrdd ag anghenion y tymor byr gael effaith niweidiol yn yr hirdymor'. Roedd yr angen i asesiadau ystyried yr hirdymor yn rhan glir o'r canllaw statudol sy'n awgrymu 'y disgwylir i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus edrych o leiaf 10 mlynedd i'r dyfodol, er y byddai arfer gorau yn edrych 25 mlynedd i'r dyfodol'.

### Ystyried tueddiadau'r dyfodol

Roedd yna amrywiaeth o ddulliau o feddwl am dueddiadau'r dyfodol a chenedlaethau'r dyfodol mewn asesiadau. Mae'r tîm ymchwil yn nodi bod nifer bach o FGCau wedi darparu ffocws clir iawn ar effaith posibl 'pynciau' ar genedlaethau o bobl yn byw o fewn eu hardal, yn arbennig Caerdydd a Phowys. Ar gyfer pob pwnc roedd myfyrdod ynglŷn â beth allai'r canlyniad hirdymor neu'r senario fod (o gadw mewn golwg dueddiadau presennol); pa gwestiynau allai hyn eu codi, canlyniadau posibl diffyg gweithredu a'r newid sydd ei angen i fabwysiadu mesurau atal. Roedd asesiad Bro Morgannwg yn ffocysu ar senarios y dyfodol yn eu hardaloedd cymunedol, gan roi naratif perswadiol am effeithiau tebygol tueddiadau mewn gwahanol gymunedau. Tra'r oedd ansawdd y dadansoddi'n amrywio, roedd y ddisgyblaeth o feddwl yn benodol am genedlaethau'r dyfodol yn amlwg yn rhan o'r asesiadau hyn ac mae hyn i'w gymeradwyo.

Fodd bynnag, dim ond ychydig o fewnwelediad i dueddiadau'r dyfodol neu heriau polisi amlgenedliadol a roddodd y mwyafrif o'r asesiadau. Cwestiynodd rhai BGCau ddilysrwydd a gwerth ffocysu ar y dyfodol, gan ei ddisgrifio fel 'gwyddoniaeth amgylchedd' tra'r oedd eraill yn aneglur iawn am eu hymagwedd tuag at ragweld a chynllunio ar gyfer yr hirdymor. Yn aml lle cafodd anghenion tymor byr eu cydnabod, cyfeiriwyd at ddeunydd generig, cenedlaethol heb nodi eu perthynas â'r ardal leol. Cyfeiriwyd at newid hinsawdd, newid economaidd, Brexit a newid technolegol, data o'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, a (phan ddaeth yn hygyrch) ddeunydd oddi wrth Lywodraeth Cymru ar dueddiadau'r dyfodol, ond yn y rhan fwyaf o'r achosion, ni archwiliwyd ac ni eglurwyd eu perthnasedd i'r ardal.

Rhoddir rhagor o enghreifftiau o ddiffyg ystyriaeth o'r hirdymor yn Rhan 1 o'r adroddiad hwn. Er enghraifft yn yr adran 'sgiliau a chymwysterau - a ydynt yn addas ar gyfer y dyfodol?', eglurir mai ychydig iawn o'r asesiadau a roddodd unrhyw ystyriaeth i'r mathau o sgiliau a fyddai eu hangen ar gyfer swyddi yn y dyfodol ac effaith tebygol awtomatiaeth a deallusrwydd artifffisial ar swyddi mewn gwahanol leoedd mewn perthynas â gwahanol rannau o'r boblogaeth.

### **Rhwysterau i feddwl yn yr hirdymor**

Fel rhan o alwad ffôn fy nhîm ymchwil â fy swyddfa â phob un o dimau BGCau (fel rhan o fy ngwaith ffocysu ar dueddiadau'r dyfodol yn yr asesiadau drafft) nodwyd bod llawer o'r timoedd heb ffocysu ar dueddiadau'r dyfodol yn yr asesiadau drafft, ac roedd cydnabyddiaeth gyffredinol y gallent fod wedi gwneud llawer mwy, drwy weithio ar senarios lleol. Gwelsant werth y broses, ond hefyd dywedasant mai bwch mewn sgiliau oedd hyn a fyddai angen cymorth.

Mae'r asesiadau wedi tynnu sylw at yr angen i ystyried yr hirdymor fel her allweddol i wasanaethau cyhoeddus wrth iddynt fynd rhagddynt ac mae hwn yn rhywbeth y bydd fy swyddfa'n archwilio'n egniol. Gyda'n gilydd rydym angen adeiladau ar gapasiti, arbenigedd a hyder i helpu pobl i fynd tu hwnt i ymagweddau normal tuag at ddatblygu polisi a'u galluogi i fod yn fwy cysurus gydag ansicrwydd tra'n defnyddio'u harbenigedd i wneud rhagdybiaethau rhesymol, y gellir craffu arnynt, am effaith tueddiadau'r dyfodol ar eu hardal leol.

### **Argymhelliad**

**Dylai gweithio gyda BGCau, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol archwilio'r ffordd orau o adeiladu capasiti, arbenigedd a'r hyder i ddeall darogan, tueddiadau'r dyfodol ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol, yn cynnwys senarios a thueddiadau sy'n llai sicr.**

---

# Atodiad 1

---

**Mae'r tablau hyn wedi eu cymryd  
o adroddiad cyflawn Netherwood  
Sustainable Futures, Prifysgol Caerdydd  
a Mark Lang Consulting, gweler  
[www.cenedlaethaurdyfodol.cymru](http://www.cenedlaethaurdyfodol.cymru)**

---

# Tabl 1 Meini prawf adolygu a ddatblygwyd gan y tîm ymchwil, a ddarparodd sail yr adborth ar asesiadau drafft o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

1	Pa mor effeithiol y cafodd y saith nod llesiant cenedlaethol eu hadlewyrchu yn yr asesiad llesiant?
2	I ba raddau y mae'r data a gynhwysir yn yr asesiad yn ffocysu ar <b>yr adral a'r lle</b> ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ar draws yr ardal?
3	I ba raddau y mae'r data a gynhwysir yn yr asesiad yn ffocysu ar <b>anghenion gwasanaethau cyhoeddus</b> , o fewn cymunedau ac ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth arbennig?
4	I ba raddau y mae'r <b>dadansoddiad meintiol</b> a'r dulliau yn darparu darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol - ynghyd â sylwebaeth ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau.
5	I ba raddau y mae'r <b>dadansoddiad ansoddol</b> a'r dulliau'n darparu darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol - ynghyd â sylwebaeth ar oblygiadau'r darlun hwn i gymunedau.
6	Pa mor dda'r mae'r asesiad yn mynd i'r afael â'r <b>heriau</b> allweddol i lesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor? Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdau, tensiynau a diffygion yn ogystal ag asedau.
7	Lefel a dull ymgysylltu, <b>ymgyfrannu a chydweithio ar draws</b> partneriaethau wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau preifat.
8	Lefel integreiddio rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad.
9	Lefel y rhagwelediad a'r defnydd o ddadansoddiad o <b>dueddiadau'r dyfodol</b> wrth gynhyrchu'r asesiad a chydnybuddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.
10	I ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol
11	Pa mor effeithiol y defnyddiwyd <b>yr egwyddor datblygu cynaliadwy</b> i ffurfio'r broses o gynhyrchu Asesiad a chynnwys data?
12	Yr ymagwedd tuag at <b>ansawdd data a bylchau mewn data</b> yn ystod yr asesiad a symud ymlaen tuag at bennu amcanion a chynllunio llesiant.
13	Eglurder ar y modd y bydd yr asesiad yn cael ei ddwyn rhagddo i ddatblygu dadansoddiad, amcanion lleol a <b>chynhyrchu cynllun</b> .

D.S. Yn ychwanegol at hyn, chwiliodd y fframwaith dystiolaeth o ymagweddau arloesol ac amlygiad arfer da wrth asesu llesiant lleol.

## Tabl 2 Sut y cafodd llesiant ei ddisgrifio a'i ddehongli mewn gwahanol leoedd

Sut y cafodd llesiant ei ddisgrifio a'i ddehongli	Asesiadau a ddangosodd y nodweddion hyn oedd:
<b>Strategol</b> Darparodd y rhain drosolwg strategol o benderfynyddion llesiant ar gyfer yr ardal, gyda ffocws clir ar gymunedau oedd o ddiddordeb a heriau allweddol.	Sir Fynwy, Powys, Cwm Taf
<b>Ffocysu ar bwnc</b> Darparodd y rhain gyfoeth o ddata ar wahanol 'bynciau' ar gyfer yr ardal yn gyffredinol, a chymunedau unigol - gyda throsolwg strategol gyfyngedig.	Wrecsam Conwy a Sir Ddinbych, a Blaenau Gwent
<b>Seiliedig ar Ganlyniad</b> Ffocysodd y rhain ar ganlyniadau i ddinasyddion o dan nifer o 'themâu' llesiant - ac roeddent yn cynnwys heriau strategol.	Bro Morgannwg, Caerdydd, Abertawe
<b>Ffocysu ar Ddata</b> Darparodd y rhain ddisgrifiad o ddata perthnasol ar lesiant o dan wahanol themâu llesiant.	Caerffili, Torfaen, Casnewydd, Sir y Fflint, Pen-y-bont, Gwynedd ac Ynys Môn, Castell Nedd Port Talbot
<b>Cyfnodau bywyd a gwasanaethau</b> Ffocysodd y rhain ar gyfnodau bywyd dinasyddion unigol, heriau allweddol a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol ym mhob cyfnod.	Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin

## Tabl 3 Sut y cafodd gwahanol asesiadau eu strwythuro

Strwythurau asesiad	Themâu	Pynciau
Ynys Môn a Gwynedd	4 thema llesiant	14
Blaenau Gwent	4 thema llesiant	30
Pen-y-bont	4 thema llesiant	43
Caerffili	7 nod llesiant	54
Caerdydd	7 canlyniad seiliedig ar le	44
Sir Gaerfyrddin	5 cyfnod bywyd	18
Ceredigion	5 cyfnod bywyd	23
Conwy a Sir Ddinbych	Dim un	36
Cwm Taf	4 thema llesiant	21
Sir y Fflint	Dim un	35
Sir Fynwy	4 thema llesiant	21
Castell Nedd Port Talbot	4 thema llesiant	36
Casnewydd	4 thema llesiant	21
Sir Benfro	5 cyfnod bywyd	22
Powys	4 thema llesiant	32
Abertawe	6 canlyniad seiliedig ar le	19
Torfaen	4 thema llesiant	75
Bro Morgannwg	4 thema llesiant	18
Wrecsam	7 nod llesiant	41